

# Gwneud penderfyniadau

## Arweiniad i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Helpu pobl sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain



Mae cyfraith newydd all eich helpu – Deddf Gallu Meddyliol 2005

# Gwneud penderfyniadau Arweiniad i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Helpu pobl sy'n methu â gwneud rhai  
penderfyniadau drostynt eu hunain

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth ragarweiniol ynglyn â Deddf Gallu Meddyliol 2005 a sut y bydd yn effeithio ar y ffordd rydych yn gweithio. Nid Côt Ymarfer statudol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 mohono ac nid yw'n arweiniad i'r ffordd y bydd y gyfraith yn berthnasol i sefyllfaoedd penodol.

---

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan:



Adran Materion Cyfansoddiadol  
Cyfawnder, hawliau a democratiadaeth  
Department for Constitutional Affairs  
Justice, rights and democracy



public  
guardianship  
office



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

---

Ar y cyd â'r Gymdeithas Gofal Genedlaethol:



## Diolchiadau

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn gan y Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol. Rhaglen ar y cyd yw hon rhwng yr Adran Materion Cyfansoddiadol, yr Adran Iechyd, y Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sefydlwyd y rhaglen gan y llywodraeth er mwyn gweithredu'r drefniadaeth, y broses a'r gweithdrefnau ar gyfer lansio'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn 2007.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Sheila Scott, Prif Weithredwr y Gymdeithas Gofal Genedlaethol, a ysgrifennodd y llyfryn hwn â chymorth Zoe Sampson, Ruth Scott a Viv Shepherd. Cefnogwyd hwy gan Nadra Ahmed a Dick Barton a thri grwp ffocws.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Grŵp Ymgynghorol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu sy'n cynrychioli pobl sy'n gweithio yn y maes. Maent wedi gwneud cyfraniad pwysig drwy rannu eu safbwyntiau a'u barn am y llyfryn ac wedi'n cynorthwyo i edrych yn wrthrychol ar ein gwaith.

# Cynnwys

1	Cyflwyniad	6
2	Beth yw gallu meddyliol?	7
3	Beth yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol a pha newidiadau fydd y Ddeddf yn eu cyflwyno?	9
	Beth yw Deddf Gallu Meddyliol 2005	9
	Y Côd Ymarfer ar gyfer y Ddeddf	10
	Pa newidiadau fydd y Ddeddf yn eu cyflwyno?	10
	Pryd fydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn dod i rym?	12
4	Pum egwyddor y Ddeddf Gallu Meddyliol	13
5	Helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain	14
6	Asesu gallu?	17
	Pryd y dylid asesu gallu?	18
	Y prawf er mwyn asesu gallu	18
	Herio canlyniad asesiad gallu	20
7	Pennaf les	21
	Beth yw 'pennaf les'?	21
	Beth ddylwn i ei wneud os oes anghydfod ynglyn â 'phennaf les'?	23
8	Gwasanaeth yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA)	24
9	Darparu gofal neu driniaeth i bobl sydd ag anallu	27
	Sut y bydd y Ddeddf yn amddiffyn pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	27
	Gwybodaeth i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol	27
	Gwybodaeth i bobl sy'n gweithio ym maes gofal iechyd	28
	Defnyddio ataliaeth	29
	Amddiffyn pobl ag anallu rhag cael eu trin yn wael neu eu hesgeuluso'n fwriadol	31

*Parhad dros y dudalen*

<b>10</b>	<b>Darparu gofal neu driniaeth i bobl sydd wedi gwneud cynlluniau ymlaen llaw</b>	<b>32</b>
	Atwrneiaeth Barhaol	32
	Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth	35
	Beth yw'r gofynion ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw	35
	Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd	36
	Gwrthwynebiad cydwybodol	38
	Atebolrwydd pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	38
	Anghydfod ac anghytundeb ynglyn â phenderfyniadau ymlaen llaw	38
	Delio gyda phenderfyniadau ymlaen llaw sy'n cael eu gwneud cyn Hydref 2007	38
	Datganiadau yn nodi dymuniadau a theimladau a chredoau a gwerthoedd	39
<b>11</b>	<b>Cyfrinachedd a chadw cofnodion</b>	<b>40</b>
	Cyfrinachedd	40
	Cadw cofnodion	41
<b>12</b>	<b>Cyrff a gwasanaethau cyhoeddus newydd sy'n cael eu creu gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005</b>	<b>42</b>
	Y Llys Gwarchod a dirprwyon	42
	Y Gwarcheidwad Cyhoeddus	43
<b>13</b>	<b>Ymchwil yn ymwneud â phobl a all fod ag anallu</b>	<b>44</b>
<b>14</b>	<b>Cysylltiad â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau eraill</b>	<b>46</b>
	Y Ddeddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983	46
	Y Ddeddf Gallu Meddyliol a phrosesau asesu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	47
	Y Ddeddf Gallu Meddyliol a phobl sydd wedi eu penodi i ddelio gyda materion Nawdd Cymdeithasol	49
	Y Ddeddf Gallu Meddyliol a Deddf Meinweoedd Dynol 2004	49
	Y Ddeddf Gallu Meddyliol a phlant a phobl ifanc	49
<b>15</b>	<b>Beth os ydw i am wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol?</b>	<b>51</b>
<b>16</b>	<b>Rhai cysylltiadau defnyddiol</b>	<b>53</b>

# 1. Cyflwyniad

## Ynglyn â'r llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am gyfraith newydd, y Ddeddf Gallu Meddyliol, a ddaw i rym yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2007, deddf a fydd yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn gweithio.

Bydd y ddeddf hon yn berthnasol i **bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol** ac sy'n gysylltiedig â darparu gofal, triniaeth neu gefnogaeth i bobl 16 oed a mwy sy'n byw yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn gallu gwneud rhai penderfyniadau neu unrhyw benderfyniad drostynt eu hunain. Gallai'r anallu hwn i wneud penderfyniad ddeillio o salwch seiciatrig (er enghraifft, dementia), anabledd dysgu, problemau iechyd meddwl, anaf i'r ymennydd neu strôc.

Bydd y Ddeddf yn effeithio ar bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel meddygon, nyrsys, deintyddion, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol a therapyddion iaith a lleferydd, gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr cartrefi preswyl a chartrefi gofal, staff gofal (gan gynnwys gweithwyr gofal cartref), gweithwyr cymorth (gan gynnwys pobl sy'n gweithio mewn tai â chymorth) ac unrhyw weithwyr eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen i'r bobl hyn wybod am y Ddeddf.

Er y dylai'r llyfryn hwn roi golwg gyffredinol i chi o'r Ddeddf a'i phrif oblygiadau i chi yn eich gwaith, dylech gyfeirio at y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol (**gweler rhan 3**), sy'n cynnwys gwybodaeth ac arweiniad manylach. Hefyd, ceir rhestr o ffynonellau gwybodaeth manylach a rhestr o gysylltiadau defnyddiol yng nghefn y llyfryn hwn.

Nid yw'r llyfryn hwn yn ymwneud ag anfon pobl i'r ysbyty neu roi triniaeth orfodol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Deddf 1983 yn ymwneud yn bennaf â phobl y canfuwyd bod ganddynt broblemau iechyd meddwl sy'n golygu bod angen eu hanfon i'r ysbyty neu roi triniaeth iddynt er mwyn sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch hwy eu hunain, neu er mwyn diogelu pobl eraill.

## 2. Beth yw gallu meddyliol?

Mae meddu ar allu meddyliol yn galluogi person i wneud ei benderfyniadau ei hun. Yn ôl y gyfraith newydd bydd person yn methu â gwneud penderfyniad penodol os yw'n methu â gwneud un neu fwy o'r pedwar peth canlynol:

- Deall gwybodaeth a roddir iddo.
- Cadw'r wybodaeth honno am ddigon o amser i allu gwneud y penderfyniad.
- Pwyso a mesur yr wybodaeth sydd ar gael er mwyn gwneud y penderfyniad.
- Cyfathrebu ei benderfyniad - boed hynny drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu hyd yn oed symudiadau cyhyrol syml fel cau llygad neu wasgu llaw.

Rydym i gyd yn cael problemau wrth wneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd, ond mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn ymwneud â mwy na hynny. Fe'i lluniwyd yn benodol i ddelio gyda sefyllfaoedd lle na all rhywun wneud penderfyniad oherwydd yr effeithir ar y ffordd y mae eu meddwl neu eu hymennydd yn gweithio gan, er enghraifft, salwch neu anabledd, neu effeithiau cyffuriau neu alcohol.

Gallai rhywun fod ag anallu meddyliol oherwydd:

- strôc neu anaf i'r ymennydd
- problem iechyd meddwl
- dementia
- anabledd dysgu
- dryswch, syrthni neu fod yn anymwybodol oherwydd salwch neu'r driniaeth ar ei gyfer
- camddefnyddio sylweddau.



Mae'r mathau o benderfyniadau a ddaw o dan y Ddeddf Gallu Meddyliol yn amrywio o benderfyniadau a wneir yn ddyddiol megis beth i'w wisgo neu beth i'w fwyta, i benderfyniadau mwy difrifol megis ble i fyw, cael llawdriniaeth neu beth i'w wneud ag arian ac eiddo unigolyn.

## **Penderfyniadau nad ydynt yn dod o dan y gyfraith newydd:**

Ni ellir byth gwneud rhai mathau o benderfyniadau ar ran person sydd ag anallu (fel priodas neu bartneriaeth sifil, ysgariad, perthynas rywiol, mabwysiadu a phleidleisio) gan berson arall. Y rheswm am hynny yw bod y penderfyniadau neu'r gweithgareddau hyn naill ai mor bersonol i'r unigolyn dan sylw neu oherwydd bod cyfreithiau eraill yn eu llywodraethu ac nid yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn newid hyn

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i sefyllfaoedd lle bo rhywun yn methu â gwneud **penderfyniad penodol ar adeg benodol** oherwydd bod ei feddwl neu ei ymennydd wedi ei effeithio, er enghraifft, gan waeledd neu anabledd, neu effeithiau cyffuriau neu alcohol. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn methu â gwneud penderfyniad pan fydd yn teimlo'n isel ond yna'n gallu ei wneud pan fydd yn teimlo'n well. Efallai bod rhywun yn methu â gwneud penderfyniad penodol ar adeg benodol, ond nid yw hyn yn golygu ei fod yn methu â gwneud unrhyw benderfyniad o gwbl. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sydd ag anabledd dysgu yn methu â gwneud rhai penderfyniadau mawr, fel penderfynu ym mhle y dylai fyw, ond nid yw hyn yn golygu o reidrwydd na all benderfynu beth i'w fwyta, beth i'w wisgo neu beth i'w wneud bob dydd.

Mae'n bwysig iawn cofio bob amser nad yw anallu o reidrwydd yn gyflwr parhaol. Dylai asesiadau o allu unigolion fod yn seiliedig ar adegau a phenderfyniadau penodol (**gweler rhan 6 o'r llyfryn hwn sy'n rhoi manylion am asesu gallu**).

### 3. Beth yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol a pha newidiadau fydd y Ddeddf yn eu cyflwyno?

#### Beth yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol?

- Yng Nghymru a Lloegr bydd y Ddeddf yn berthnasol i bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n ymwneud â gofal, triniaeth neu gefnogaeth i bobl dros 16 oed a allai fod yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.
- Mae'n seiliedig ar ymarfer da presennol ac mae'n creu fframwaith unigol, cydlynol er mwyn delio gyda materion gallu meddyliol a ffordd well o ddatrys anghydfod, delio gyda materion lles personol ac eiddo a materion ariannol pobl sy'n methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.
- Mae'n gwneud yr unigolyn sydd ag anallu yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau ac yn rhoi pwyslais ar gefnogi a galluogi'r unigolyn i wneud ei benderfyniadau ei hun. Os na all wneud hynny, mae'n pwysleisio y dylai gael ei gynnwys yn y penderfyniadau cyn belled ag y bo modd.
- Bydd yn cyflwyno mesurau diogelu newydd, pwysig ar gyfer pobl sy'n methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda hwy, yn eu cynorthwyo neu'n gofalu amdanynt.
- Mae'n seiliedig ar bum egwyddor allweddol a fydd yn llywio popeth a wnewch wrth ddarparu gofal neu driniaeth i berson sydd ag anallu (gweler [rhan 4](#) y llyfryn hwn).
- Bydd Cod Ymarfer ar gael a fydd yn esbonio sut y bydd y ddeddf yn gweithio o ddydd i ddydd.

## Y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol

Bydd y Cod yn esbonio sut y bydd y ddeddf yn gweithio o ddydd i ddydd a bydd yn darparu canllawiau defnyddiol ac astudiaethau achos i bawb sy'n gweithio gyda phobl a all fod ag anallu. Mae'r Cod yn esbonio'n fanylach beth yw nodweddion allweddol y gyfraith newydd a rhai o'r camau ymarferol y bydd angen i'r bobl sy'n defnyddio ac yn dehongli'r gyfraith newydd eu hystyried. Os ydych yn gweithio gyda phobl sydd ag anallu a chithau'n weithiwr proffesiynol a/neu'n cael eich talu am y gwaith yr ydych yn ei wneud, bydd gennych **ddyletswydd gyfreithiol i 'roi sylw' i'r Cod.**

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt roi ystyriaeth i'r Cod a gallu dangos eich bod yn gyfarwydd â'r canllawiau ynddo ac os na fyddwch yn ei ddilyn rhaid ichi allu rhoi rhesymau teilwng dros beidio â gwneud hynny.

Pan gaiff ei gyhoeddi bydd y Cod Ymarfer ar gael ar-lein yn: [www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm](http://www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm) a gallwch archebu copïau caled gan y Llyfrfa drwy ffonio 0870 600 5522 neu e-bostio [customerservices@tso.co.uk](mailto:customerservices@tso.co.uk)

### Pa newidiadau fydd y Ddeddf yn eu cyflwyno?

- Rhaid cymryd yn ganiataol bob amser bod y bobl yr ydych yn gofalu amdanynt neu'n eu trin yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.
- Un prawf clir ar gyfer asesu a yw person yn analluog i wneud penderfyniad ([gweler rhan 6 y llyfryn hwn](#)).
- Rhestr wirio o ffactorau allweddol sy'n darparu man cychwyn i'ch helpu i nodi beth sydd er 'pennaf les' person sydd ag anallu ([adran 7](#))

- Sawl ffordd y gall pobl ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd iddynt os na fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau penodol yn y dyfodol, yn cynnwys penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol, datganiadau ynglŷn â dymuniadau a theimladau, a chreu Atwrneiaeth Barhaol (rhan 10).
- Esboniad o'r camau y gallwch eu cymryd os oes gan berson anallu, a'r mesurau diogelu cyfreithiol a fydd yn berthnasol i hyn (rhan 9).
- Dyletswydd arnoch i ymgynghori, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, â phobl sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ofalu am y person sydd ag anallu ac unrhyw un sydd â diddordeb yn eu lles (er enghraifft aelodau'r teulu, ffrindiau, partneriaid a gofalwyr), ynglŷn â'r penderfyniadau sy'n effeithio ar y person hwnnw (gweler rhan 7). Os oes atwrnai dan Atwrneiaeth Barhaol (rhan 10), dirprwy wedi'i benodi gan y Llys (rhan 12) neu berson a enwir, bydd dyletswydd arnoch i ymgynghori â'r rheini hefyd.
- Gwasanaeth eiriolaeth newydd, gwasanaeth yr Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2007 ymlaen yn Lloegr ac o fis Hydref 2007 ymlaen yng Nghymru. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y bydd EGMA yn gorfod dod yn gysylltiedig, a hynny dim ond os nad oes unrhyw berson priodol y gellir ymgynghori ag ef neu hi (rhan 8).
- Trosedd newydd o drin yn wael neu esgeuluso person ag anallu yn fwriadol a fydd yn dod i rym yn Ebrill 2007 (rhan 9).
- Mesurau diogelu newydd wrth ymgymryd ag ymchwil yn ymwneud â phobl sydd ag anallu (rhan 13).
- Llys Gwarchod newydd a swyddog cyhoeddus newydd (y Gwarcheidwad Cyhoeddus) a fydd yn cael ei gefnogi gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (rhan 12).

## Pryd fydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn dod i rym?

Cyhoeddwyd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ym mis Rhagfyr 2007 ac fe'i dangosir isod.

### Ebrill 2007

- Daw gwasanaeth yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) newydd i rym yn Lloegr yn unig.
- Daw'r trosedd newydd o drin yn wael neu esgeulustod bwriadol i rym yng Nghymru ac yn Lloegr.
- Daw Adrannau 1-4 y Ddeddf (yr egwyddorion, asesu gallu a phennu'r pennaf les) sy'n hanfodol i'r ffordd y bydd EGMA yn gweithredu i rym hefyd ond dim ond mewn sefyllfaoedd lle y gallai EGMA gyfrannu atynt, ac at ddibenion y trosedd. Ni fydd adrannau 1-4 y Ddeddf yn berthnasol mewn unrhyw sefyllfa arall tan fis Hydref 2007.
- Cyhoeddir y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf a dylai'r bobl hynny y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddo ei ddilyn mewn sefyllfaoedd lle gallai EGMA fod yn gysylltiedig.

### Hydref 2007

- Daw pob rhan arall o'r Ddeddf gan gynnwys y gwasanaeth EGMA i rym yng Nghymru.

## 4. Pum egwyddor y Ddeddf Gallu Meddyliol

Mae i'r Ddeddf Gallu Meddyliol bum egwyddor sy'n pwysleisio cysyniadau sylfaenol a gwerthoedd creiddiol y Ddeddf. Rhaid cadw'r rhain mewn cof bob amser pan fyddwch yn gweithio gyda phobl sy'n methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, neu'n darparu gofal neu driniaeth iddynt.

Y pum egwyddor yw:

- 1 Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau neu ei phenderfyniadau ei hun, a rhaid cymryd yn ganiataol bod ganddo ef neu hi y gallu i wneud hynny oni phrofir yn wahanol. Golyga hyn na ddylech gymryd yn ganiataol bod rhywun yn methu â gwneud penderfyniad drosto'i hun dim ond oherwydd bod ganddo ef neu hi gyflwr meddygol neu anabled.
- 2 Rhaid cefnogi pobl cymaint ag y bo modd i wneud penderfyniad cyn i unrhyw un ddod i'r casgliad na allant wneud eu penderfyniad eu hunain. Golyga hyn y dylech ymdrechu i'r eithaf i annog a chefnogi'r person i wneud y penderfyniad ei hun. Gweler [adran 5](#) y llyfryn hwn i gael mwy o wybodaeth am sut i wneud hyn. Os sefydlir bod gan berson anallu, mae'n dal yn bwysig cynnwys y person gymaint ag y bo modd wrth wneud penderfyniadau.
- 3 Mae gan bobl hawl i wneud penderfyniadau fyddai'n ymddangos i bobl eraill yn rhai annoeth neu od. Mae gan bawb ei werthoedd, ei ddaliadau a'i ddymuniadau ei hun, sy'n wahanol o bosib i rai pobl eraill. Ni allwch eu trin fel pobl sydd ag anallu oherwydd hynny.
- 4 Rhaid i unrhyw beth sy'n cael ei wneud dros neu ar ran rhywun sy'n methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun, gael ei wneud er [pennaf les](#) y person hwnnw. Gweler [rhan 7](#) o'r llyfryn hwn am fwy o wybodaeth ynglyn â sut i fynd ati i benderfynu beth sydd er pennaf les y sawl yr ydych yn gofalu amdano neu'n ei drin.
- 5 Dylai unrhyw beth a wneir dros neu ar ran pobl ag anallu gyfyngu cyn lleied ag sy'n bosibl ar eu hawliau a'u rhyddid sylfaenol. Felly, pan fyddwch yn gwneud rhywbeth i neu ar ran person sydd ag anallu rhaid ichi ddewis yr opsiwn sydd er pennaf les y person hwnnw a rhaid ichi ystyried a allech wneud hyn mewn ffordd sy'n tarfu llai ar eu hawliau a'u rhyddid gweithredu.

## 5. Helpu pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain

Pan fydd angen i rywun sydd yn eich gofal wneud penderfyniad, rhaid ichi ddechrau drwy gymryd yn ganiataol ei fod yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad dan sylw (egwyddor 1). Dylech wneud pob ymdrech i annog a chefnogi'r person i wneud y penderfyniad ei hun (egwyddor 2) a bydd yn ofynnol i chi ystyried nifer o ffactorau er mwyn ei helpu i wneud y penderfyniad.

Gallai'r rhain gynnwys:

- A yw'r person yn meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn gwneud y penderfyniad? Os oes dewis, a roddwyd gwybodaeth am y dewisiadau?
- A ellid egluro neu gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd a fyddai'n haws i'r person ei deall? Dylid rhoi cymorth i fynegi gwybodaeth lle bynnag y bo angen. Er enghraifft, efallai y byddai rhywun sydd ag anabledd dysgu yn ei chael yn haws i gyfathrebu drwy luniau, ffotograffau, fideos, tapiau neu iaith arwyddion.
- A yw dealltwriaeth person yn well ar rai adegau o'r dydd, neu oes yna le arbennig lle byddai'n teimlo'n fwy cartrefol ac yn fwy tebygol o allu gwneud penderfyniad? Er enghraifft, os yw rhywun yn teimlo'n swrth ar ôl cymryd ei feddyginiaeth, ni fyddai honno'n adeg ddelfrydol iddo wneud penderfyniad.
- A all unrhyw un arall helpu neu gefnogi'r person i ddeall y wybodaeth neu wneud dewis? Er enghraifft, perthynas, ffrind neu eiriolwr.

## Enghraifft:

Cafodd Michael strôc dair blynedd yn ôl. Mae wedi bod yn wael ac erbyn hyn mae yn yr ysbyty. Mae'r meddyg yn awyddus i wneud mwy o brofion dan anesthetig.

Wrth i'r meddyg drafod beth fydd yn digwydd gyda Michael, mae Michael yn teimlo'n anniddig ac yn gofyn drosodd a throsodd pam bod angen yr anesthetig. Er nad yw hwn yn achos brys, mae'r meddyg yn teimlo nad oes gan Michael y gallu i gydsynio i dderbyn triniaeth gan nad yw fel pe bai'n gallu deall na chofio yr hyn a ddywed y meddyg. Felly, mae'r meddyg yn ymgynghori â gwraig Michael, sy'n egluro bod Michael, ers cael y strôc, yn mynd yn anniddig pan fydd oddi cartref ac ymhell oddi wrth y bobl a'r pethau y mae'n gyfarwydd â hwy. Mae hi'n awgrymu y byddai o gymorth pe bai hi yno tra byddai'r meddyg yn egluro'r profion wrth Michael er mwyn ei gysuro ac egluro pethau wrtho.

Mae'r meddyg yn trafod y profion eto gyda Michael, yng nghwmni'i wraig. Ar y dechrau, mae Michael yn gyndyn o gytuno i gael yr anesthetig, ond eglura'i wraig wrtho y byddai hi yno pan fyddai'n deffro, ac na fyddai raid iddo aros yn yr ysbyty dros nos. Gyda chymorth ei wraig, mae Michael yn dod i ddeall yr hyn y mae'r meddyg yn ei ddweud, yn gallu dod i benderfyniad ac yn rhoi ei ganiatâd i gynnal y profion.

Rhaid ichi gofio, os yw rhywun yn gwneud penderfyniad sy'n ymddangos yn od neu'n annoeth i chi, nad yw hyn o reidrwydd yn golygu ei fod yn analluog i wneud y penderfyniad ([Egwyddor 3](#)).



### Enghraifft:

O ganlyniad i ddamwain car ychydig flynyddoedd yn ôl mae Margie wedi ei pharlysu ac mae ganddi hefyd anaf ar ei hymennydd.

Derbyniodd Margie iawndal sylweddol am ei hanafiadau.

Mae'n awyddus i ddefnyddio peth o'r arian i gael llawdriniaeth gosmetig.

Cytuna ei theulu ei bod yn deall goblygiadau ariannol gwario cyfran o'r iawndal ar lawdriniaeth gosmetig. Er hyn, maent yn bryderus nad yw'n deall peryglon y driniaeth.

Mae'r llawfeddyg cosmetig wedi ymgynghori gyda Margie droeon. Mae hi wedi nodi'n glir ei bod yn ymwybodol o'r goblygiadau corfforol ac ariannol ac mae hi'n benderfynol o gael y llawdriniaeth. Creda y bydd yn llesol i'w hunan-barch a'i hyder a bod y manteision hyn yn fwy na'r peryglon posib.

Mae'r llawfeddyg hefyd yn gofyn i un o'i gydweithwyr drafod goblygiadau'r driniaeth gyda Margie. Casgliad ei gydweithiwr yw fod gan Margie'r gallu meddyliol i wneud y penderfyniad ac mae'n nodi hynny yn ei chofnodion meddygol.

Pan fo lle i gredu nad oes gan rywun allu meddyliol i wneud penderfyniad, disgwylir i chi ystyried y canlynol:

- A yw popeth posib wedi ei wneud i helpu a chefnogi'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad?
- A oes raid i'r penderfyniad gael ei wneud ar frys?
- Os nac oes, a yw'n bosib aros hyd nes bydd y person yn gallu gwneud y penderfyniad drosto'i hun? Er enghraifft, gallai rhywun fod yn swrth neu'n ddryslud oherwydd ei feddyginiaeth.

Os oes amheuaeth o hyd ynglyn â gallu'r person i wneud penderfyniad, yna bydd angen i chi symud i'r cam nesaf o asesu gallu fel y nodir yn [rhan 6](#) o'r llyfryn hwn.

## 6. Asesu gallu

Rhaid cychwyn bob amser drwy dybio fod gan berson allu meddyliol i wneud y penderfyniad dan sylw (egwyddor 1). Dan y Ddeddf Gallu Meddyliol, mae'n ofynnol i chi wneud asesiad o allu cyn ymgymryd ag unrhyw ofal neu driniaeth. Wrth gwrs, os yw'r penderfyniad yn un mwy difrifol, bydd rhaid i'r asesiad fod yn fwy ffurfiol. Bydd sut a phryd y bydd yr asesiadau hyn yn cael eu cofnodi yn amrywio yn ôl difrifoldeb y penderfyniad a wneir.

Dylech gofio bob amser nad yw'r ffaith fod rhywun yn methu â gwneud penderfyniad ar un achlysur yn golygu na fydd byth yn gallu gwneud penderfyniad yn y dyfodol, neu benderfyniad ynglyn â mater arall.

### Enghraifft:

Mae Ridwaan yn dioddef o ddementia ac mae'n byw mewn cartref gofal preswyl.

Fel llawer o bobl sydd â dementia, mae ei allu meddyliol yn anwadal.

Gan amlaf gall wneud pob penderfyniad sylfaenol ynglyn â'i fywyd bob dydd, fel ymolchi, bwyta ac yfed ac ati.

Ambell waith, fodd bynnag, mae'n methu â gwneud y penderfyniadau mwyaf sylfaenol, fel beth i'w fwyta

Ar yr adegau hyn, gellid nodi yn y cofnodion gofal: "Amser cinio heddiw, ni allai Ridwaan benderfynu beth i'w fwyta, felly gwnaethpwyd penderfyniad ynglyn â hyn er ei bennaf les. Bob amser bwyd, byddwn yn asesu ei allu i benderfynu beth mae am ei fwyta. Os bydd yn gallu gwneud y penderfyniad hwn ar unrhyw adeg, yna bydd yn dewis beth i'w fwyta".

## Pryd y dylid asesu gallu?

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn nodi'n glir y dylai unrhyw asesiad o allu ymwneud â 'phenderfyniad penodol'. Golyga hyn:

- y dylai asesiad gallu ymwneud â'r penderfyniad penodol y mae angen ei wneud ar adeg benodol, yn hytrach nag ystod o benderfyniadau
- er bod rhywun yn methu â gwneud penderfyniadau cymhleth drosto'i hun, nid yw'n golygu na all wneud penderfyniadau syml. Er enghraifft, mae'n bosib y gallai rhywun sydd ag anabledd dysgu wneud penderfyniadau ynglyn â beth i'w wisgo neu beth i'w fwyta, ond na allai benderfynu a ddylai fyw mewn cartref gofal ai peidio
- ni allwch benderfynu bod rhywun yn methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun dim ond oherwydd ei oedran, ei ymddangosiad, ei gyflwr neu ei ymddygiad.

## Y prawf er mwyn asesu gallu

Fel rheol, ni fyddwch yn gwneud asesiad gallu heb ymgynghori â theulu, ffrindiau a/neu ofalwyr neu Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol os oes un wedi'i benodi ([gweler rhan 8](#)). Bydd hyn yn dibynnu ar y sefyllfa a'r penderfyniad y mae angen ei wneud.

Ni ddylech fyth fynegi barn heb yn gyntaf gynnal asesiad priodol o allu'r person i wneud penderfyniad.

## Y prawf gweithredol o allu meddyliol

Er mwyn penderfynu a yw rhywun yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniad penodol, mae'n rhaid penderfynu i ddechrau a oes amhariad neu aflonyddiad ar weithrediad meddwl neu ymennydd y person (boed hynny'n barhaol neu dros dro).

Os hynny, yr ail gwestiwn i'w ateb yw a yw'r amhariad neu'r aflonyddiad yn rhwystro'r person rhag gwneud y penderfyniad penodol?

Bydd y person yn methu â gwneud y penderfyniad penodol os yw, ar ôl derbyn pob cymorth a chefnogaeth briodol (egwyddor 2) yn methu â:

- 1 deall y wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwnnw, yn cynnwys deall canlyniadau tebygol gwneud y penderfyniad neu beidio â'i wneud
- 2 cadw'r wybodaeth honno
- 3 pwysu a mesur neu ddefnyddio'r wybodaeth fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad
- 4 cyfathrebu ei benderfyniad (boed hynny drwy siarad, arwyddo neu unrhyw fodd arall).

Dylid gwneud pob ymdrech i ganfod ffyrdd o gyfathrebu â rhywun cyn penderfynu ei fod yn methu â gwneud penderfyniad dim ond oherwydd ei fod yn methu â chyfathrebu. Ychydig iawn o bobl fydd ag anallu ar y sail hon yn unig. Gallai'r rhain gynnwys pobl sy'n anymwybodol neu sydd mewn coma, neu bobl sy'n dioddef o gyflwr niwrolegol prin a elwir yn "syndrom cloi i mewn". Mewn nifer o achosion eraill, gallai gweithred syml fel cau llygaid neu wasgu llaw fod yn ddigon i fynegi penderfyniad. Mae'n debyg y bydd angen cymorth pobl broffesiynol sydd â sgiliau arbenigol mewn cyfathrebu geiriol a di-eiriau wrth wneud penderfyniadau yn y maes hwn.

Rhaid ystyried tebygolrwydd wrth wneud asesiad - a yw'n fwy tebygol na pheidio bod y person yn methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun. Dylech allu dangos yn eich cofnodion pam y daethoch i'r casgliad nad yw'r person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad penodol.

## Herio canlyniad asesiad gallu

Weithiau bydd yr asesiad a wnaethpwyd gennych chi neu un o'ch cydweithiwr yn cael ei herio.

Gallai'r asesiad gael ei herio gan y sawl a aseswyd neu gan rywun sy'n gweithredu ar ei ran, megis perthynas neu eiriolydd.

Pan fydd asesiad yn cael ei herio gallai'r person chwilio am ateb i'r broblem fel a ganlyn:

- Y cam cyntaf bob amser fydd codi'r mater gyda'r sawl a wnaeth yr asesiad. Bydd cofnodion yr asesydd yn rhan bwysig o'r broses.
- Gallai barn bellach fod yn ddefnyddiol mewn rhai achosion.
- Cynnwys eiriolydd (nid EGMA) sy'n annibynnol ar yr holl bartion sy'n gysylltiedig.
- Y drefn gwyno leol.
- Cyfryngu.
- Cynhadledd achos.
- Oni ellir cael ateb i'r broblem gall y person gyflwyno cais i'r Llys Gwarchod ([gweler rhan 12](#)) er mwyn cael penderfyniad.

Am arweiniad pellach ynglyn â ffyrdd o ddatrys anghytundebau dylech ddarllen y Côd Ymarfer.

## 7. Pennaf les

Os yw'r asesiad wedi dod i'r casgliad na all person wneud penderfyniadau drosto'i hun, yna bydd rhaid i bob gweithred neu benderfyniad a wneir dros neu ar ran y person gael ei gwneud er pennaf les y person hwnnw (egwyddor 4).

Cyfeirir at y person sy'n gorfod gwneud y penderfyniad fel 'y sawl sy'n gwneud y penderfyniad'. Fel rheol, y person hwn fydd y gofalwr sy'n gyfrifol am y gofal o ddydd i ddydd, neu weithiwr proffesiynol fel meddyg, nyrs, neu weithiwr cymdeithasol pan fydd angen gwneud penderfyniad ynglyn â thriniaeth, trefniadau gofal neu le i fyw.

### Beth yw 'pennaf les'?

Mae'r gyfraith yn rhoi rhestr wirio sy'n nodi'r prif elfennau y mae'n ofynnol ichi eu hystyried wrth geisio penderfynu beth sydd er pennaf les rhywun sy'n methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a dylech ddarllen y Côd Ymarfer er mwyn cael mwy o fanylion.

- Mae'n bwysig peidio â gwneud tybiaethau ynglyn â phennaf les rhywun ar sail oedran neu edrychiad, cyflwr neu unrhyw agwedd ar ymddygiad person.
- Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r penderfyniad dan sylw.
- Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried a yw'r person yn debygol o adennill ei allu i wneud penderfyniad drosto'i hun (e.e. ar ôl cael triniaeth feddygol). Os hynny, a all y penderfyniad neu'r weithred aros tan hynny?
- Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad gynnwys y person cymaint â phosib yn y penderfyniad sy'n cael ei wneud ar ei ran.
- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â darparu neu atal triniaeth cynnal bywyd, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad sicrhau nad yw'n cael ei gymell gan awydd i ddod â bywyd y person dan sylw i ben.

- Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad roi ystyriaeth yn fwyaf arbennig i'r canlynol:
  - dymuniadau a theimladau'r person yn y presennol a'r gorffennol (yn enwedig os ydynt yn ysgrifenedig)
  - unrhyw gredoau a gwerthoedd (e.e. rhai crefyddol, diwylliannol neu foesol) a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar y penderfyniad dan sylw ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.
- Cyn belled ag y bo modd, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ymgynghori â phobl eraill os yw hynny'n briodol, ac ystyried eu barn hwyl ynghlyn â beth fyddai er pennaf les y sawl sy'n methu â gwneud y penderfyniad drosto'i hun, yn enwedig:
  - unrhyw un a enwyd yn flaenorol fel rhywun y dylid cysylltu ag ef gan y sawl sy'n methu â gwneud penderfyniad drosto'i hun
  - gofalgwyr, perthnasau agos, ffrindiau agos neu unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn sicrhau lles y person
  - unrhyw atwrnai a benodwyd dan Atwrneiaeth Barhaol
  - unrhyw ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran y person.

Os ydych yn gwneud y penderfyniad dan y gyfraith newydd, rhaid i chi gymryd y camau uchod, ymysg eraill, a phwysu a mesur y ffactorau uchod er mwyn penderfynu beth sydd er pennaf les yr unigolyn. I gael rhagor o wybodaeth dylech gyfeirio at y Cod Ymarfer.

Ar gyfer penderfyniadau ynghylch triniaeth feddygol ddifrifol neu newidiadau penodol i drigfan, a lle nad oes unrhyw un sy'n dod o fewn y categorïau uchod, dylech ystyried a oes angen i chi gael Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) ([gweler rhan 8](#)).

## Beth ddylwn i ei wneud os oes anghydfod ynglyn â phennaf les?

Ni fydd perthnasau a ffrindiau bob amser yn cytuno ynglyn â beth fydd er pennaf les yr unigolyn.

Os mai chi yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, bydd angen i chi ddangos yn glir yn eich cofnodion eich bod wedi gwneud eich penderfyniad ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac wedi ystyried yr holl wahanol ddadleuon.

Os oes anghydfod, gallai'r pwyntiau isod fod o gymorth i chi wrth benderfynu beth sydd er pennaf les rhywun:

- Ymgynghorwch ag eiriolydd sy'n hollol annibynnol ar bawb sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Gofynnwch i rywun arall beth yw ei farn.
- Cynhaliwch gynhadledd achos ffurfiol neu anffurfiol.
- Rhewch gynnig ar gyfryngu.
- Gellir gwneud cais i'r Llys Gwarchod er mwyn cael penderfyniad.



## 8. Gwasanaeth yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol

Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, bydd pobl sy'n methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn cael eu cefnogi gan rwydwaith o berthnasau neu ffrindiau sy'n cymryd diddordeb yn eu lles, neu gan ddirprwy (gweler rhan 12) neu atwrnai a benodwyd dan Atwrneiaeth Barhaol (gweler rhan 10). Er hyn, efallai y bydd rhai pobl sy'n methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain heb neb i'w cefnogi wrth wneud penderfyniadau mawr, penderfyniadau a allai newid cwrs eu bywydau. Mae'r Ddeddf, o ganlyniad, yn sefydlu Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol i'w cynrychioli a'u cefnogi. Mae'r Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol yn fath arbennig o eiriolydd a dim ond pan na fydd teulu na ffrindiau y gellir ymgynghori â hwy y bydd yn cael ei gynnwys. Nid yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol fydd yn gwneud y penderfyniad, ond bydd rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ystyried yr wybodaeth a roddwyd gan yr Eiriolydd.

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn creu gwasanaeth eiriolaeth newydd o'r enw gwasanaeth yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) a fydd ar gael o fis Ebrill 2007 ymlaen yn Lloegr ac o fis Hydref 2007 ymlaen yng Nghymru. Darperir y gwasanaeth yn ardal pob awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.

Dim ond mewn sefyllfaoedd penodol y bydd angen cysylltu ag Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol, er enghraifft:

- lle bo'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth feddygol ddifrifol a ddarparir gan y GIG
- lle bwriedir symud rhywun i ofal tymor hir am fwy na 28 diwrnod mewn ysbyty neu 8 wythnos mewn cartref gofal
- lle bwriedir symud rhywun am dymor hir (8 wythnos neu ragor) i leoliad gwahanol, fel ysbyty neu gartref gofal gwahanol
- yn Lloegr mae awdurdodau lleol a'r GIG wedi cael pwerau i ymestyn y gwasanaeth EGMA i sefyllfaoedd penodol os ydynt yn fodlon y byddai EGMA yn darparu budd penodol. Y rhain yw:
  - adolygiadau gofal am lety neu newid i lety ac

- achosion amddiffyn oedolion (hyd yn oed os oes gan yr unigolyn ag anallu deulu a/neu ffrindiau).
- yng Nghymru, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi yn ystod 2007 a fydd byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol hefyd yn gallu ymestyn y gwasanaeth EGMA i'r sefyllfaoedd hyn.

Fodd bynnag, does dim rhaid i EGMA fod yn gysylltiedig os yw'r driniaeth i'w rhoi o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu os oes rhaid i'r person dan sylw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fynd i'r ysbyty neu'r cartref dan sylw.

Mae dyletswyddau'r Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol fel a ganlyn:

- cefnogi'r sawl sy'n methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun a mynegi ei farn a'r hyn a fyddai o fudd iddo i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad
- casglu a gwerthuso gwybodaeth - gall EGMA siarad â'r claf yn breifat ac archwilio, a lle bo'n briodol, wneud copiâu o gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol megis cofnodion clinigol, cynlluniau gofal neu ddogfennau asesiadau gofal cymdeithasol
- sefydlu beth yw dymuniadau a theimladau, credoau a gwerthoedd y person, cyn belled ag y bo modd
- sicrhau ffyrdd gwahanol o weithredu
- gofyn am farn feddygol bellach os oes angen un.
- paratoi adroddiad ar gyfer y person a'u cyfarwyddodd.

Os bydd EGMA yn anghytuno â'r penderfyniad a wneir, gallant hefyd herio'r sawl a wnaeth y penderfyniad.

Os mai chi yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn y GIG, mewn awdurdod lleol (yn Lloegr) neu fwrdd iechyd lleol (yng Nghymru) eich dyletswydd chi fydd cyfarwyddo'r EGMA cyn gwneud y penderfyniad (ac eithrio mewn sefyllfaoedd brys). Bydd comisiynwyr a darparwyr EGMA lleol yn sicrhau bod y manylion cysyllt gofynnol yn cael eu dosbarthu'n eang fel bo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n gallu cysylltu â darparwr(wyr) yr EGMA ar fyrder pan fo raid.

## Enghraifft:

Mae Jamil yn oedolyn sydd ag anableddau dysgu difrifol ac mae ei fam a'i dad wedi marw yn ddiweddar.

Mae ar Jamil angen llawdriniaeth i'w galon. Ers marwolaeth ei rieni, dyma'r tro cyntaf i rywun orfod gwneud penderfyniad ynglyn â Jamil ac nid oes ganddo unrhyw deulu na ffrindiau, nac unrhyw un arall i'w gynrychioli na'i gefnogi.

Er ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'i fywyd bob dydd, nid oes ganddo'r gallu i gydsynio i gael llawdriniaeth.

Felly, gofynnir i Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol geisio darganfod barn Jamil, cyn belled ag y bo modd, a'i mynegi i'r meddyg a fydd yn y pen draw yn penderfynu a yw cario 'mlaen â'r driniaeth er pennaf les Jamil.

Os bydd angen i chi gyfarwyddo EGMA, gallwch gael arweiniad a gwybodaeth fanylach am y gwasanaeth EGMA yn:

- Y Cod Ymarfer
- Tudalennau gwe EGMA yr Adran Iechyd yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau peilot y gwasanaeth EGMA, Canllawiau Comisiynu EGMA, gwybodaeth am ddeunyddiau hyfforddi EGMA a hefyd arweiniad ar ddehongli'r rheoliadau sy'n ymestyn y gwasanaeth EGMA i adolygon llety ac achosion amddiffyn oedolion: [www.dh.gov.uk/imca](http://www.dh.gov.uk/imca)
- Rheoliadau EGMA ar gyfer Lloegr sy'n rhoi manylion rôl a swyddogaethau'r EGMA: <http://www.opsi.gov.uk/si/si2006/20061832.htm> <http://www.opsi.gov.uk/si/si2006/20062883.htm>
- Rheoliadau EGMA drafft ar gyfer Cymru sy'n rhoi manylion rôl a swyddogaethau'r EGMA: e-bost: [sarah.austin@wales.gsi.gov.uk](mailto:sarah.austin@wales.gsi.gov.uk)

## 9. Darparu gofal neu driniaeth i bobl sydd ag anallu

Sut fydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn eich amddiffyn os ydych yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae'r Ddeddf yn darparu amddiffyniad cyfreithiol rhag atebolrwydd am gyflawni rhai gweithredoedd yng nghyswllt gofal a thriniaeth pobl nad ydynt yn gallu rhoi eu caniatâd, cyn belled:

- eich bod wedi cydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf Gallu Meddyliol
- eich bod wedi gwneud asesiad o allu'r unigolyn a'ch bod yn credu'n rhesymol na all wneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater dan sylw (rhan 6)
- eich bod yn credu'n rhesymol bod yr hyn rydych wedi ei wneud er pennaf les y person (rhan 7).

Gallai rhai penderfyniadau rydych yn eu gwneud arwain at newidiadau mawr neu ganlyniadau arwyddocaol ym mywyd yr unigolyn dan sylw a bydd angen ystyried y rhain yn ofalus iawn. Er enghraifft, symud i gartref gofal neu gartref nyrsio efallai, neu wneud penderfyniadau mawr yn ymwneud â gofal iechyd a thriniaeth feddygol.

### Gwybodaeth i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol

Cyn belled eich bod wedi cydymffurfio â'r Ddeddf Gallu Meddyliol wrth asesu gallu person ac wedi gweithredu er pennaf les y person, byddwch yn gallu cyflawni sawl agwedd ar ofal personol person heb ei ganiatâd ac yn cael eich amddiffyn rhag atebolrwydd wrth wneud hynny.

Gallai gweithredoedd yn ymwneud â gofal person a allai roi amddiffyniad i chi rhag atebolrwydd gynnwys:

- helpu rhywun i ymolchi, gwisgo amdano neu sicrhau glendid personol
- helpu rhywun i fwyta ac yfed
- helpu rhywun i gerdded a chynnig cymorth â chludiant

- helpu i drefnu gwasanaethau o amgylch y tŷ, er enghraifft y cyflenwad trydan, gwaith tŷ, gwaith trwsio neu gynnal a chadw
- gweithredoedd a gyflawnir mewn perthynas â gofal cartref neu wasanaethau eraill
- gweithredoedd a gyflawnir mewn perthynas â gwasanaethau gofal eraill yn y gymuned (fel gofal dydd, cartref preswyl neu ofal nyrsio)
- gweithredoedd sy'n gysylltiedig â newid trigfan
- gweithredoedd sy'n gysylltiedig â diogelwch y person
- gweithredoedd sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau amddiffyn oedolion.

Gan y gallai fod dadlau ynghylch gweithredoedd o'r fath, bydd o fudd i chi gadw cofnod o'r camau a gymerwyd ar ffactorau a ystyriwyd. Bydd y manylder yn gallu amrywio yn ôl difrifoldeb y weithred.

Mewn argyfwng, yn aml iawn bydd o fudd i'r person os ydych yn darparu gofal brys yn ddi-oed.

## Gwybodaeth i bobl sy'n gweithio ym maes gofal iechyd

Dim ond i chi gydymffurfio â'r Ddeddf Gallu Meddyliol wrth asesu gallu person a gweithredu er pennaf les y person, byddwch yn gallu rhoi diagnosis a thrin cleifion nad yw'r gallu ganddynt i roi eu caniatâd.

Er enghraifft:

- archwiliadau a phroffion diagnostig
- asesiadau
- triniaeth feddygol a deintyddol
- gweithdrefnau llawfeddygol
- derbyn i ysbyty ar gyfer asesiad neu driniaeth (ac eithrio ar gyfer pobl a allai gael eu cadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Gweler [rhan 14](#) am wybodaeth ynglyn â'r cysylltiad rhwng y Ddeddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983).

- gofal nyrsio
- gweithdrefnau brys (fel dadebru cardio-anadlol).

Bydd yn bwysig eich bod yn cadw cofnod llawn o'r hyn sydd wedi digwydd. Ni fydd yr amddiffyniad rhag atebolrwydd ar gael oni bai eich bod yn gallu dangos eich bod wedi asesu gallu ([gweler rhan 6](#)), yn credu'n rhesymol bod rhywun ag anallu ac yna wedi gweithredu mewn modd yr ydych yn credu'n rhesymol ei fod er pennaf les y person ([gweler rhan 7](#)).

Mewn argyfwng, bydd darparu triniaeth frys yn ddi-oed yn aml iawn er pennaf les rhywun.

Ar hyn o bryd, mae rhai penderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaeth feddygol mor ddifrifol fel y dylai pob achos fynd i'r llys. Os hoffech gael gwybodaeth fanylach dylech ddarllen y Côd Ymarfer.

Bydd ffurflenni rhoi caniatâd enghreifftiol a chanllawiau rhoi caniatâd yr Adran Iechyd yn cael eu diweddarau yng ngoleuni'r Ddeddf Gallu Meddyliol. Bydd rhagor o wybodaeth fanwl am hyn ar gael yn [www.dh.gov.uk/consent](http://www.dh.gov.uk/consent)

## Defnyddio ataliaeth

Gallai materion sy'n ymwneud ag ataliaeth fod yn berthnasol iawn i chi.

Mae ataliaeth yn cynnwys ystod eang o weithredoedd, gan gynnwys defnyddio grym, neu fygwth grym i wneud rhywbeth y mae'r person dan sylw'n ei wrthwynebu, er enghraifft drwy ddefnyddio ochrau cot neu gyfyngu ar symudiadau pobl neu atal rhyddid person i symud (sydd bron â bod yn gyfyngiad a fyddai'n amddifadu rhywun o'i ryddid).

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn pennu dau amod ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i amddiffyniad rhag atebolrwydd am ataliaeth fod ar gael:

- Rhaid i chi gredu'n rhesymol bod rhaid atal y person sydd ag anallu er mwyn ei atal rhag cael niwed.
- Rhaid i unrhyw ataliaeth a ddefnyddir fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r niwed posibl.

Gallai defnyddio ataliaeth ormodol eich gwneud yn agored i ystod o gosbau sifil a throseddol. Er enghraifft, efallai y bydd angen hebrwng rhywun wrth iddo fynd allan oherwydd nad yw'n gallu croesi'r ffordd yn ddiogel, ond mae'n bosib na fyddai'n rhesymol ichi ei atal rhag mynd allan o gwbl.

## Mesurau Diogelu Bournemouth

Enw ar ysbyty yw Bournemouth lle roedd dyn ag awtistiaeth ac yntau heb allu i roi ei ganiatâd i fod mewn ysbyty yn cael ei gadw. Cafodd hyn ei herio a chanfu'r Llys Hawliau Dynol Ewrop ei fod wedi'i amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon.

Mewn ymateb i Achos Bournemouth mae'r Llywodraeth yn bwriadu newid y Ddeddf Gallu Meddyliol i gyflwyno gweithdrefnau a mesurau diogelu 'Bournemouth' ar gyfer pobl heb allu i wneud penderfyniadau am eu gofal, ac a amddifadir o'u rhyddid, er eu pennaf les eu hunain. Bydd hyn yn berthnasol i bobl mewn ysbytai a chartrefi gofal.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth dylech ddarllen taflen friffio'r Adran Iechyd ar ddarpariaethau arfaethedig Bournemouth. Mae'r daflen i'w gweld yn: [www.dh.gov.uk/assetRoot/04/13/68/45/04136845.pdf](http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/13/68/45/04136845.pdf)

## Amddiffyn pobl sydd ag anallu rhag cael eu trin yn wael neu eu hesgeuluso

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno trosedd newydd o drin unigolyn sydd ag anallu yn wael neu ei esgeuluso'n fwrriadol ac fe ddaw i rym ym mis Ebrill 2007. Y bwriad yw ceisio sicrhau nad yw pobl yn camdrin pobl sydd ag anallu, yn eu trin yn wael neu'n eu hesgeuluso. Os ceir rhywun yn euog o'r trosedd hwn gall wynebu carchar neu ddirwy.

Gallai'r trosedd gynnwys atal rhywun yn afresymol yn erbyn ei ewyllys, peidio â darparu gofal digonol, a hefyd y mathau mwy cyffredin o gamdriniaeth a ddaw i'n meddwl, fel camdriniaeth ariannol, rywiol, gorfforol a seicolegol.

Bydd y trosedd hwn yn berthnasol i berson:

- sy'n gofalu am rywun sydd ag anallu
- sy'n atwrnai wedi ei benodi dan Atwrneiaeth Barhaol neu Barhaus
- sy'n ddirprwy wedi ei benodi i'r person gan y llys.

Bydd angen ichi fod â gwybodaeth lawn am hyn wrth ichi gyflawni eich dyletswyddau. Yn unol â'r arferion da ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, dylech gadw cofnodion sy'n dangos eich bod wedi dilyn y Côd Ymarfer.

Er bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n ymwneud â gofalu am bobl hawdd eu niweidio yn gwbl ddibynadwy, dylai pawb fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth a chymryd camau ar unwaith i'w atal. Os ydych yn meddwl bod rhywun yn cael ei gam-drin neu ei drin yn wael, dylech gysylltu â'r heddlu neu wasanaethau oedolion eich Adran Gwasanaethau Cymdeithasol lleol a fydd yn delio â'r mater dan y gweithdrefnau amddiffyn oedolion lleol.



## 10. Darparu gofal neu driniaeth i bobl sydd wedi gwneud cynlluniau ymlaen llaw

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd mae'n bwriadu ehangu'r ffyrdd y gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wneud cynlluniau ymlaen llaw ar gyfer yr adeg pan fyddant o bosib yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Atwrneiaethau Parhaol, penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth, a datganiadau ysgrifenedig ynglyn â dymuniadau a theimladau yw'r rhain.

Os ydych yn darparu gofal neu driniaeth i rywun sydd ag anallu gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol iawn er mwyn penderfynu beth i'w wneud. Os ydych yn gweithio gyda phobl sydd yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, neu sydd â'u gallu'n mynd a dod (fel pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl) efallai y byddai o gymorth pe baech yn sôn wrthynt am y ffyrdd hyn o gynllunio ymlaen llaw ar gyfer adeg pan na fyddant o bosib yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae darparu gofal neu driniaeth i bobl sydd wedi cynllunio ymlaen llaw yn faes cymhleth iawn ac fe'ch cynghorir i ddarllen y Côd Ymarfer er mwyn cael canllawiau manylach.

### Atwrneiaethau Parhaol

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno math newydd o atwrneiaeth a fydd yn gadael i bobl dros 18 oed benodi un neu fwy o bobl yn ffurfiol i ofalu am eu hiechyd, eu lles a/neu eu penderfyniadau ariannol, os na fyddant rywbyrd yn y dyfodol yn gallu gwneud y penderfyniadau hyn eu hunain. Gelwir y person a fydd yn gwneud AB yn **rhoddwr**. Gelwir y pŵer a roddir i rywun arall yn **Atwrneiaeth Barhaol (AB)** a gelwir y person(au) a benodir yn **atwrnai(atwrneiod)**. Bydd yr AB yn rhoi'r awdurdod i'r atwrnai wneud penderfyniadau ar ran y rhoddwr a bydd gan yr atwrnai ddyletswydd i weithredu neu wneud penderfyniadau er pennaf les (**egwyddor 4**) y sawl sydd wedi gwneud yr AB.

Bydd dwy wahanol fath o Atwrneiaeth Barhaol:

- 1 **Atwrneiaeth Barhaol lles personol** ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag iechyd a lles personol
- 2 **Atwrneiaeth Barhaol eiddo a materion ariannol** ar gyfer penderfyniad sy'n ymwneud â materion ariannol

## Ffeithiau pwysig am Atwrneiaethau Parhaol

- Bydd cyflwyno'r Atwrneiaeth Barhaol ar gyfer eiddo a materion ariannol yn golygu na fydd modd gwneud rhagor o Atwrneiaethau Parhaus o Hydref 2007 ymlaen, ond mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn gwneud darpariaethau trosiannol fel bod Atwrneiaethau Parhaus sy'n bodoli'n barod yn gallu parhau pa un a ydynt wedi eu cofrestru ai peidio. Mae hyn yn golygu y gellir dal i ddefnyddio Atwrneiaethau Parhaus sy'n bodoli'n barod ar ôl Hydref 2007 (pa un a ydynt wedi eu cofrestru ai peidio) ac y gellir dal i'w cofrestru ar ôl Hydref 2007.
- Pan fo rhywun yn gwneud Atwrneiaeth Barhaol rhaid iddo fod â'r gallu i ddeall pwysigrwydd y ddogfen a'r pŵer y mae'n ei roi i berson arall.
- Cyn y gellir defnyddio Atwrneiaeth Barhaol rhaid ei chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (**rhan 12**). Mae hyn yn hollbwysig. Os nad yw wedi ei chofrestru ni ellir defnyddio Atwrneiaeth Barhaol o gwbl.
- Gellir defnyddio Atwrneiaeth Barhaol ar gyfer eiddo a materion ariannol pan fo'r rhoddwr yn dal i feddu ar y gallu i wneud penderfyniadau drosto'i hun oni bai fod y rhoddwr yn nodi'n wahanol.
- Ni fydd gan atwrnai lles personol hawl i gydsynio, nac i wrthod triniaeth, ar unrhyw adeg neu ynglyn ag unrhyw fater pan fo'r person yn meddu ar y gallu i wneud y penderfyniad drosto'i hun.
- Os yw'r person sydd yn eich gofal yn methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun ac os yw wedi gwneud Atwrneiaeth Barhaol lles personol, yr atwrnai fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglyn â phob mater sy'n ymwneud â gofal a thriniaeth y person. Oni fydd yr AB yn pennu terfynau i awdurdod yr atwrnai, bydd gan yr atwrnai'r awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch lles personol ac i roi caniatâd i driniaeth neu wrthod triniaeth (ond nid triniaeth cynnal

bywyd). Rhaid i'r atwrnai wneud y penderfyniadau hyn er pennaf les y sawl sydd ag anallu (egwyddor 4) ac os oes anghydfod na ellir ei ddatrys, e.e. rhwng yr atwrnai a meddyg, mae'n bosib y bydd rhaid ei gyfeirio i'r Llys Gwarchod.

- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd, ni fydd gan yr atwrnai hawl i wneud y penderfyniad oni bai fod yr Atwrnaeth Barhaol yn nodi hynny.
- Os ydych yn ymwneud yn uniongyrchol â gofalu neu roi triniaeth i berson sydd ag anallu, ni ddylech gytuno i weithredu fel ei atwrnai ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os mai chi yw unig berthynas agos y person.
- Mae'n bwysig darllen yr Atwrnaeth Barhaol os yw ar gael er mwyn deall faint o bŵer sydd gan yr atwrnai.

### Enghraifft:

Mae Martin wedi ei ddiagnosio yn ddiweddar fel un sydd yng nghamau cynnar iawn clefyd Alzheimer.

Mae eisiau gwneud yn siwr os bydd ag anallu yn y dyfodol y bydd ei werthoedd a'i ddymuniadau personol yn cael eu hystyried pan wneir penderfyniad ar ei ran. Mae'n penderfynu penodi ei ferch fel atwrnai lles i wneud unrhyw benderfyniadau lles personol y mae'n colli'r gallu i'w gwneud drosto'i hun. Mae'n siarad am bethau sy'n bwysig iddo ef, fel ei ddymuniad i aros yn agos at ei ffrindiau, ac i allu mynd i gartref gofal sy'n caniatáu anifeiliaid anwes. Mae ei ferch wedyn yn cofrestru'r Atwrnaeth Barhaol.

Os bydd Martin yn methu â phenderfynu yn y dyfodol ym mhle y mae am fyw, bydd gan ei ferch hawl i wneud y penderfyniad hwn fel ei atwrnai lles personol. Bydd hi'n gallu ystyried y pethau a ddywedwyd gan ei thad wrth ystyried beth fyddai er pennaf les iddo.

## Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth

Weithiau mae gan bobl syniadau pendant ynglyn â pha fathau o driniaethau nad ydynt eisiau eu cael ac na fyddent yn cydsynio â hwy. Mae penderfyniad ymlaen llaw yn caniatáu iddynt fynegi'r teimladau hyn yn glir, cyn iddynt golli'r gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Gellir gwneud penderfyniadau ymlaen llaw, sydd hefyd yn cael eu galw'n gyfarwyddebau ymlaen llaw neu'n 'ewyllysiau byw' ar hyn o bryd dan gyfraith gwlad ac mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn eu rhoi ar sylfaen statudol. Mae hefyd yn egluro beth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn i benderfyniad ymlaen llaw fod yn **ddilys** ac yn **berthnasol** ac yn cyflwyno mesurau diogelu newydd.

Mewn penderfyniad ymlaen llaw gall person 18 oed neu drosodd nodi pa fathau penodol o driniaethau **na** fyddai eisiau eu cael ac ym mha amgylchiadau, pe bai'n colli'r gallu i wrthod cydsynio â'r driniaeth hon drosto'i hun yn y dyfodol. Gall fod ynghylch unrhyw driniaeth hyd yn oed petai'n arwain at farwolaeth y person ac os yw'n **ddilys** ac yn **berthnasol**, rhaid ei ddilyn gan ei fod yn gyfreithiol-rwym ac yn meddu ar yr un grym â phan fo person â gallu yn gwrthod triniaeth (gweler isod am y gofynion ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw). Does dim rhaid i benderfyniad ymlaen llaw fod yn ysgrifenedig, ar wahân i benderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaeth cynnal bywyd (gweler isod) ond byddai'n ddefnyddiol petai'n ysgrifenedig.

## Beth yw'r gofynion ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw?

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno nifer o reolau y mae'n rhaid i bobl eu dilyn wrth wneud penderfyniad ymlaen llaw. Os ydych yn gwneud penderfyniad ynglyn â thriniaeth i rywun sy'n methu â rhoi ei ganiatâd, rhaid ichi fod yn fodlon bod y penderfyniad ymlaen llaw yn bodoli, ei fod yn **ddilys** ac yn **berthnasol** i'r driniaeth benodol dan sylw.

Mae'r rhestr isod yn cynnwys crynodeb byr o rai o'r prif ofynion ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw (os ydych yn gysylltiedig â phenderfyniad o'r fath rhaid ichi ddarllen y Côd Ymarfer):

- Rhaid iddo fod yn **ddilys**. Ni ddylai'r person fod wedi ei dynnu'n ôl, na'i ddiystyru drwy wneud Atwrneiaeth Barhaol sy'n ymwneud â'r driniaeth yn y penderfyniad ymlaen llaw (**gweler rhan 10**), nac wedi gweithredu mewn ffordd sy'n amlwg yn anghyson â'r penderfyniad ymlaen llaw.
- Rhaid iddo fod yn **berthnasol** i'r driniaeth dan sylw. Dylai gyfeirio'n amlwg at y driniaeth dan sylw (nid oes rhaid defnyddio termau meddygol manwl) a dylai egluro at ba amgylchiadau y mae'r gwrthodiad yn cyfeirio. Os yw'r amgylchiadau wedi newid ac y mae sail resymol dros gredu y byddent wedi effeithio ar benderfyniad ymlaen llaw person pan wnaeth y penderfyniad, yna efallai na fydd yn berthnasol.

Dylech nodi hefyd:

- lle bo pobl yn cael eu cadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a lle gellir felly eu trin am anhwylder meddyliol heb eu caniatâd, gellir rhoi triniaeth o'r fath iddynt hefyd er bod ganddynt benderfyniad ymlaen llaw i wrthod y driniaeth
- ni all pobl wneud penderfyniad ymlaen llaw i ofyn am driniaeth feddygol – y cyfan y gallant ei wneud yw dweud pa fathau o driniaethau y byddent yn eu gwrthod
- ni all pobl wneud penderfyniad ymlaen llaw i ofyn i rywun derfynu eu bywyd.

Os ydych yn fodlon bod y penderfyniad yn **ddilys** ac yn **berthnasol**, rhaid i chi gadw at y penderfyniad hwnnw.

## Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn nodi ffurfioldebau ychwanegol ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw sy'n gwrthod triniaeth cynnal bywyd.

Rhaid i benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth cynnal bywyd fodloni'r gofynion ychwanegol isod:

- Rhaid iddo fod yn ysgrifenedig, sy'n cynnwys cael ei ysgrifennu ar ran y person neu ei gofnodi yn ei nodiadau meddygol.
- Rhaid iddo gael ei arwyddo gan y sawl sy'n ei wneud yng ngŵydd tyst a rhaid i'r tyst hefyd arwyddo'r ddogfen. Gellir arwyddo'r penderfyniad hefyd ar ran y sawl sy'n ei wneud, ar ei gyfarwyddyd, os yw'n methu â'i arwyddo drosto'i hun.
- Rhaid iddo gael ei gadarnhau drwy ddatganiad penodol wedi ei wneud gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ymlaen llaw. Gall y datganiad hwn fod wedi ei gynnwys yn y ddogfen neu gall fod yn ddatganiad ar wahân, a bydd yn nodi bod y penderfyniad ymlaen llaw i fod yn berthnasol i'r driniaeth benodedig hyd yn oed os yw bywyd mewn perygl. Os oes datganiad ar wahân rhaid i hwn hefyd gael ei arwyddo a'i ardystio.

### Enghraifft:

Mae Ike wedi gweld cyfaill iddo'n marw o ganser. Mae'n penderfynu na fyddai ef am gael cemotherapi na radiotherapi pe bai e'n mynd yn ddifrifol wael ac yn agos at farw. Mae Ike yn poeni pe bai e'n methu â gwneud penderfyniad y byddai'r meddygon yn ei wneud drosto.

Felly mae'n gwneud penderfyniad ymlaen llaw yn nodi yn y dyfodol os bydd yn mynd yn wael nad yw eisiau cael cemotherapi na radiotherapi. Mae ei benderfyniad ymlaen llaw'n cynnwys datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau nad yw eisiau cemotherapi na radiotherapi hyd yn oed os yw ei fywyd mewn perygl. Mae Ike yn arwyddo'r penderfyniad ymlaen llaw ac mae ffrind agos iddo'n dyst i'w lofnod.

Rhaid cydymffurfio â'r penderfyniad ymlaen llaw os a phan ddaw'n berthnasol ac os yw'r meddyg yn fodlon ei fod yn ddilys ac yn berthnasol.

Mae darparu gofal neu driniaeth i bobl sydd wedi gwneud penderfyniadau ymlaen llaw yn faes cymhleth ac fe'ch cynghorir i gyfeirio at y Cod Ymarfer am arweiniad manylach.

## Gwrthwynebiad cydwybodol

Ni fydd rhaid ichi weithredu yn unol â phenderfyniad ymlaen llaw os ydych yn ei wrthwynebu ar sail grefyddol neu foesol.

Rhaid ichi roi gwybod am hyn cyn gynted ag y bo modd a rhaid gwneud trefniadau er mwyn trosglwyddo'r gwaith o reoli gofal y claf i weithiwr proffesiynol arall ym maes iechyd.

## Atebolrwydd pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Ni fyddwch yn cael eich dal yn atebol am ddarparu triniaeth er pennaf les claf os, ar ôl cymryd camau rhesymol, nad ydych yn gwybod neu os nad ydych yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol yn bodoli

Os ydych yn fodlon bod penderfyniad ymlaen llaw'n bodoli a'i fod yn ddilys ac yn berthnasol, yna gallai peidio â chydymffurfio ag ef arwain at hawliad cyfreithiol am iawndal neu erlyniad troseddol am ymosodiad.

Os ydych yn credu'n rhesymol bod penderfyniad ymlaen llaw dilys a pherthnasol yn bodoli yna ni fyddwch yn cael eich dal yn atebol am ganlyniadau cydymffurfio ag ef a pheidio â darparu triniaeth. Dylech gofnodi'n glir sut y daethoch i'ch casgliadau.

## Anghydfodau ac anghytundebau ynglyn â phenderfyniadau ymlaen llaw

Bydd rhaid i chi lunio barn ynghylch a yw penderfyniad ymlaen llaw yn ddilys ac yn berthnasol neu beidio a dylech gyfeirio at y Cod Ymarfer i gael arweiniad manylach yn enwedig os oes anghytundeb.

Os oes anghydfod neu anhawster, yna dylech ystyried cyfryngu neu gallai'r mater gael ei gyfeirio i'r Llys Gwarchod gennych chi neu berthynas, gofalwr neu ffrind agos i'r claf.

## Delio gyda phenderfyniadau ymlaen llaw sy'n cael eu gwneud cyn Hydref 2007

Gall pobl wneud penderfyniadau ymlaen llaw yn barod ac fe'u gelwir weithiau yn 'ewyllysiau byw'. Os oes gan unrhyw rai o'r bobl rydych yn darparu gofal neu driniaeth iddynt benderfyniad ymlaen llaw yn barod,

dylech awgrymu eu bod yn gwneud ymholiadau er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn cydymffurfio â'r rheolau newydd sy'n cael eu nodi yn y Ddeddf Gallu Meddylol ac y bydd yn ddilys ac yn berthnasol pan ddaw'r Ddeddf i rym. Os yw'r person eisoes wedi colli'r gallu i wneud penderfyniadau drosto'i hun yna gallai'r penderfyniad ymlaen llaw fod yn gyfrwymol o hyd. Bydd canllawiau manylach ynglyn â hyn ar gael yn [www.dh.gov.uk/consent](http://www.dh.gov.uk/consent)

## Datganiadau ynglyn â dymuniadau a theimladau a chredoau a gwerthoedd

Weithiau bydd pobl eisiau gallu ysgrifennu neu ddweud wrth bobl beth yw eu dymuniadau a beth fyddai'n well ganddynt ei weld yn digwydd mewn perthynas â thriniaeth a gofal yn y dyfodol ac egluro'u teimladau neu'r gwerthoedd sydd y tu cefn i'r ffordd y maent yn gwneud penderfyniadau.

Gall y datganiadau hyn fod ynglyn ag unrhyw beth, gan gynnwys dymuniadau personol fel cael cawod yn hytrach na bath, neu gysgu gyda golau. Gall datganiadau o'r fath ofyn am fathau arbennig o driniaeth, y mae'n rhaid i chi eu hystyried yn ofalus, yn enwedig os ydynt wedi'u cofnodi ar bapur.

### Enghraifft:

Mae Khalid yn llysiuwr a chanddo gyflwr dirywiol. Mae eisiau gwneud yn siwr os bydd ag anallu meddylol ac os bydd arno angen pobl i'w helpu â thasgau bob dydd y byddant yn ystyried ei gredoau personol. Mae felly'n ysgrifennu datganiad yn egluro mai dim ond bwyd llysiuol y mae am ei gael. Mae Khalid yn nodi ei fod am i'r datganiad gael ei gadw gyda'i gofnodion iechyd fel ei fod yn y dyfodol, os na fydd yn gallu gwneud a chyfathrebu ei benderfyniadau ei hun mwyach, yn derbyn bwyd yn unol â'i ddymuniadau.

Wrth i chi asesu pa driniaeth neu ofal sydd er pennaf les person, bydd rhaid i chi ystyried y datganiadau hyn. Ond rhaid i'ch penderfyniad terfynol bob amser fod yn seiliedig ar eich asesiad o beth sydd er pennaf les y person a'ch barn broffesiynol o beth sy'n ofynnol neu'n briodol yn glinigol. Os yw hyn yn wahanol i'r hyn y maent wedi'i ddweud yn eu datganiad ynglyn â dymuniadau a theimladau dylech gadw cofnod o hyn a bod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniad os caiff ei herio.



## 11. Cyfrinachedd a chadw cofnodion

### Cyfrinachedd

Mae'n ofynnol ichi gadw gwybodaeth am y bobl sydd yn eich gofal yn gyfrinachol. Ni ddylid datgelu gwybodaeth bersonol oni bai:

- bod y person yn cytuno
- bod ymrwymiad cyfreithiol i wneud hynny
- bod hynny o'r pwys mwyaf er lles y cyhoedd.

Lle bo gan y person anallu gallai prawf 'pennaf les' y Ddeddf Gallu Meddyliol hefyd gyfiawnhau datgelu gwybodaeth ([gweler rhan 7](#)).

Wrth asesu gallu person mae'n bosib y bydd angen rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol weithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Os nad yw person yn gallu cydsynio i ddatgelu gwybodaeth yna rhaid ichi benderfynu a fyddai datgelu'r wybodaeth er pennaf les iddo ([gweler rhan 7](#)). Ni ddylid datgelu mwy o wybodaeth na'r hyn sy'n angenrheidiol.

Lle penodwyd atwrnai dan Atwrneiaeth Barhaol lles personol bydd yr atwrnai'n penderfynu a ellir datgelu gwybodaeth a rhaid ichi ymgynghori ag ef, fel rheol, cyn rhannu unrhyw wybodaeth. Lle nad yw'n bosib ymgynghori, er enghraifft, gan fod angen triniaeth frys, rhaid ichi weithredu er pennaf les y claf a hysbysu'r atwrnai yngl n ag unrhyw gamau a gymerwyd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Gall datgelu gwybodaeth a gweld gwybodaeth fod yn gymhleth. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar Ddeddf Diogelu Data 1998 ac nid yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn newid nac yn disodli'r canllawiau hyn. Yn ychwanegol at hyn, mae gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau eu codau ymddygiad, eu polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain mewn perthynas â chyfrinachedd. Cefnogir y rhain gan arbenigwyr, fel Swyddogion Diogelu Gwybodaeth / Data yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwarcheidwaid Caldicott yn sefydliadau'r GIG.

I gael arweiniad manylach a ffynonellau gwybodaeth am gyfrinachedd dylech edrych ar y canlynol:

- Canllawiau ar Ddeddf Diogelu Data 1998  
[www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)
- Côd Ymarfer y GIG ar gyfrinachedd a gwybodaeth am Warcheidwaid Caldicott  
[www.dh.gov.uk](http://www.dh.gov.uk) (edrychwch dan 'gyfrinachedd cleifion')
- Dylech hefyd ddarllen unrhyw godau ymarfer neu weithdrefnau'n ymwneud â chyfrinachedd sydd gan eich gweithle.

## Cadw cofnodion

Fel rhywun sy'n gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol bydd angen ichi gofnodi'n gywir y penderfyniadau rydych yn eu gwneud ynglyn â'r asesiad o allu meddyliol, a'r penderfyniad ynglyn â phennaf les.

Gellir cofnodi'r penderfyniadau yn y canlynol:

- Cynllun gofal
- Cofnodion nyrsio
- Cofnodion meddygol
- Cofnodion gwaith cymdeithasol
- Cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol eraill
- Nodiadau a chofnodion eraill, fel y rhai hynny a gedwir gan weithwyr cymdeithasol, therapyddion neu gynorthwywyr gofal

Dylech gofio y gallai'r cofnodion rydych yn eu cadw gael eu defnyddio yn y dyfodol os oes anghydfod neu fel rhan o achos cyfreithiol.

## 12. Cyrff cyhoeddus a gwasanaethau newydd a grëir gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn creu llys newydd a swyddog cyhoeddus newydd i amddiffyn pobl sydd ag anallu ac i oruchwylio a chefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan.

### Y Llys Gwarchod a dirprwyon

Bydd y Llys Gwarchod presennol yn cael ei ddisodli gan Lys Gwarchod newydd a fydd yn Llys arbenigol ac yn delio gydag unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gallu Meddyliol. Bydd yn ymdrin â phenderfyniadau ynghylch eiddo a materion a hefyd iechyd a lles pobl ag anallu. Bydd yn bwysig iawn wrth ddatrys achosion cymhleth neu achosion y mae anghydfod yn eu cylch, er enghraifft, wrth benderfynu a oes gan rywun anallu neu beth sydd er pennaf les rhywun. Mewn amgylchiadau penodol, bydd y Llys Gwarchod hefyd yn gallu ystyried achosion yn ymwneud â phlant sydd dan 16 oed, er enghraifft, pan fo angen gwneud penderfyniadau tymor hir ynglyn â'u materion ariannol.

Bydd gan y Llys Gwarchod yr hawl i ymgymryd â'r canlynol:

- gwneud datganiadau yn nodi a yw person yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniad penodol ai peidio
- gwneud penderfyniadau ynglyn â materion difrifol sy'n ymwneud â gofal iechyd a thriniaeth
- gwneud penderfyniadau ynglyn ag eiddo a materion ariannol rhywun sydd ag anallu
- penodi dirprwyon i fod ag awdurdod parhaus i wneud penderfyniadau
- gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag Atwrneiaethau Parhaol a Parhaus.

Bydd y Llys yn gallu penodi dirprwy os oes raid, er enghraifft oherwydd bod gan berson anallu parhaus. Bydd y Llys yn teilwra'r pwerau a roddir i ddirprwy ar sail amgylchiadau'r achos.

Bydd dirprwyon yn disodli'r drefn bresennol o dderbynyddion a benodir gan y Llys i ddelio gydag eiddo a materion person sydd ag anallu, ond yn y dyfodol gallai dirprwyon gael eu penodi hefyd i ddelio gyda phenderfyniadau ynghylch lles personol. Bydd rhaid i'r dirprwyon roi sylw i'r Cod ([gweler rhan 3](#)) a gweithredu er pennaf les y person sydd ag anallu ([gweler rhan 7](#)).

Fel arfer ni fydd pobl sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gofal a thriniaeth person sydd ag anallu, yn cael eu penodi'n ddirprwyon oherwydd y gwrthdaro posibl mewn buddiannau.

## Y Gwarcheidwad Cyhoeddus

Bwriad swydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yw amddiffyn pobl sydd ag anallu rhag cael eu cam-drin. Cefnogir y Gwarcheidwad Cyhoeddus gan swyddfa newydd, sef Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Bydd tasgau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cynnwys y canlynol:

- cadw cofrestr o Atwrneiaethau Parhaol a Pharhaus
- cadw cofrestr o orchmynion sy'n penodi dirprwyon
- goruchwylio dirprwyon a benodir gan y Llys
- rhoi cyfarwyddyd i Ymwelwyr y Llys Gwarchod ymweld â phobl sydd ag anallu
- derbyn adroddiadau gan atwrneiod sy'n gweithredu dan Atwrneiaethau Parhaol a chan ddirprwyon
- darparu adroddiadau i'r llys yn ôl y galw
- delio gyda sylwadau (gan gynnwys cwynion) ynglyn â'r ffordd y mae atwrneiod neu ddirprwyon yn ymarfer eu hawliau
- darparu gwybodaeth gyffredinol ynglyn â'r Ddeddf Gallu Meddyliol.

## 13. Ymchwil yn ymwneud â phobl a allai fod ag anallu

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn gosod fframwaith cyfreithiol clir ar gyfer sawl math o ymchwil sy'n ymwneud â phobl sy'n methu â chydysynio i gymryd rhan mewn ymchwil o'r fath. Fel rhywun sy'n darparu gofal neu driniaeth i berson sydd ag anallu, os yw'r person yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil o'r fath mae'n bosib y gofynnir i chithau fod yn rhan ohono.

Mae'n bwysig bod gwaith ymchwil yn gallu cynnwys pobl sydd ag anallu, er mwyn darparu gwybodaeth ynglyn ag achosion anallu ac ynglyn â diagnosis, triniaeth, gofal ac anghenion pobl sydd ag anallu. Mae'r Ddeddf yn ymwneud ag ystod eang o waith ymchwil gan gynnwys ymchwil glinigol, ac ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ond ceir deddfwriaeth ar wahân ar gyfer treialon clinigol.

Gallai'r gwaith ymchwil y mae'r Ddeddf yn ymwneud ag ef gynnwys y canlynol:

- datblygu ffyrdd newydd a mwy effeithiol o drin cyflwr
- gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- darganfod achos salwch gwanychol neu anabledd dysgu
- atal niwed, dieithrio neu anfantais i bobl sydd ag anallu
- edrych pa fath o ymyriad sy'n gweithio orau mewn sefyllfa benodol.

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno nifer o fesurau diogelu er mwyn amddiffyn pobl sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaid ymgynghori ag aelod o'r teulu neu ofalwyr di-dâl ynglyn ag unrhyw gynnig a rhaid iddynt gytuno y gall y person fod yn rhan o'r ymchwil. Os na ellir dod o hyd i berson o'r fath, yna rhaid i'r ymchwilydd ddod o hyd i rywun sy'n annibynnol ar y prosiect ymchwil i roi cyngor iddo a yw'n briodol i'r person sydd ag anallu gymryd rhan yn yr ymchwil.

- Os yw'r sawl sydd ag anallu'n dangos unrhyw arwydd nad yw'n fodlon bod yn rhan o'r ymchwil yna ni chaniateir i'r ymchwil fynd rhagddo.
- Bydd yr holl gynlluniau ar gyfer gwaith ymchwil yn cael eu harchwilio gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil annibynnol cydnabyddedig.
- Bydd angen i'r pwyllgor gytuno bod y gwaith ymchwil yn angenrheidiol, yn ddiogel ac yn briodol ac na ellir ei wneud mor effeithiol wrth ddefnyddio pobl sydd â gallu meddyliol.
- Bydd rhaid i'r pwyllgor hefyd gymeradwyo cynlluniau i ddelio gyda phobl sydd wedi cydsynio i ymuno â phrosiect ymchwil tymor hir ond sydd wedi colli'r gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain cyn diwedd y prosiect.

Mae dymuniadau a theimladau'r person yn y gorffennol ac yn y presennol yn bwysig iawn wrth benderfynu a ddylai gymryd rhan mewn ymchwil ai peidio. Gallai rhywun sy'n ymwneud â phrosiect ymchwil ofyn ichi a ydych yn gwybod beth yw teimladau'r person. Gall rhan o brosiect ymchwil gael ei wneud pan fyddwch yn darparu gofal neu driniaeth i berson ac mae'n bosib y gofynnir ichi adael i'r ymchwilwyr wybod os yw'n ymddangos bod unrhyw agwedd arno'n peri gofid i'r person.

Bydd angen i unrhyw un sy'n sefydlu neu'n gwneud gwaith ymchwil o'r fath wneud yn siwr bod yr ymchwil yn cydymffurfio â'r darpariaethau sydd yn y Ddeddf a bydd angen iddo ddilyn y canllawiau sydd yn y Côt Ymarfer.

Ffynonellau eraill ar gyfer gwybodaeth a chyfarwyddyd:

- Os hoffech gael canllawiau manylach ynglyn â gwaith ymchwil sy'n ymwneud â phobl sydd ag anallu dylech ddarllen Côt Ymarfer y Ddeddf Gallu Meddyliol.
- Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chydsynio i ddefnyddio meinweoedd neu organau ar gyfer ymchwil dylech gysylltu â'r Awdurdod Meinweoedd Dynol:

[www.hta.gov.uk/guidance/codes\\_of\\_practice.cfm](http://www.hta.gov.uk/guidance/codes_of_practice.cfm)

## 14. Cysylltiad â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau eraill

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol ynghyd â deddfau eraill sy'n berthnasol i neu'n effeithio ar eiddo a materion, gofal neu driniaeth pobl a all fod ag anallu gyda golwg ar faterion penodol. Dylai'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol hefyd o'u dyletswyddau dan gyfreithiau eraill, yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu iddynt):

- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990
- Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

### Y Ddeddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983

- **Gellir defnyddio'r Ddeddf Gallu Meddyliol** i drin pobl ar gyfer anhwylder meddyliol pan na allant gydsynio i dderbyn y driniaeth gan fod ganddynt anallu a lle bo'r driniaeth er eu pennaf les (**gweler rhan 7**).
- Ond **ni ellir defnyddio'r Ddeddf Gallu Meddyliol** i gadw rhywun mewn ysbyty. Os ydych yn meddwl ei bod yn bosib bod angen cadw person mewn ysbyty i gael triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol, bydd angen ichi ystyried cymryd camau er mwyn asesu ei allu gyda'r bwriad o'i gadw mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Os bydd person yn cael ei gadw yn yr ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, nid yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol i driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol y person y gellir ei rhoi heb ganiatâd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ei hun. Y rheswm am hyn yw na all hyd yn oed rywun sydd â'r gallu i roi caniatâd wrthod triniaeth o'r fath. Mae hefyd yn golygu na all atwrneiod (a dirprwyon) ganiatáu na gwrthod triniaeth

o'r fath ar ran y claf. Am yr un rheswm, gellir diystyru penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol lle bo angen.

- I bob pwrpas arall bron iawn, bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn parhau i fod yn berthnasol i glaf sy'n cael ei gadw yn yr ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad oes unrhyw effaith ar benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ar gyfer unrhyw salwch na chyflwr ar wahân i anhwylder meddyliol, nac ar unrhyw hawl sydd gan atwrnai i gydsynio â thriniaeth o'r fath. Mae hefyd yn golygu, lle nad yw claf sy'n cael ei gadw yn yr ysbyty yn meddu ar y gallu i gydsynio i dderbyn triniaeth ar wahân i driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol, y bydd angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau weithredu yn unol â'r Ddeddf Gallu Meddyliol.

Os hoffech gael mwy o fanylion ynglyn â'r cysylltiad rhwng y Ddeddf Gallu Meddyliol a Deddf Iechyd Meddwl 1983 dylech ddarllen y Côd Ymarfer.

## Y Ddeddf Gallu Meddyliol a phrosesau asesu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Ar hyn o bryd mae nifer o wahanol brosesau asesu cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- Y **Broses Asesu Unedig** yng Nghymru, neu'r **Broses Asesu Sengl** fel y cyfeirir ati yn Lloegr, sef y ffordd y mae gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i bobl hyn
- Y **Dull Rhaglen Ofal** sef y ffordd y mae gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i oedolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl statudol
- **Cynllunio Person Ganolog**, sef y ffordd y mae gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i oedolion sydd ag anabledd dysgu.

Gallai'r prosesau asesu hyn hefyd gynnwys pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol.

Os ydych yn gweithio fel rhan o unrhyw un o'r prosesau hyn, er enghraifft fel cydlynnydd gofal Dull Rhaglen Ofal i rywun, dylech ystyried sut y bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol, a sut y bydd yn eich helpu chi a'r sawl rydych yn gofalu amdano.



Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn helpu i ddangos pa mor bwysig yw sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog i'r prosesau hyn gan gynnwys y prosesau gwneud penderfyniadau a'r prosesau sy'n ymwneud â'r gofal a'r driniaeth a roddir i'r person. Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol hefyd yn pwysleisio y dylid cynorthwyo'r person gymaint ag sy'n bosib i wneud ei benderfyniadau ei hun, hyd yn oed os ydych yn teimlo bod y penderfyniadau hyn yn annoeth ([gweler rhan 5](#)).

Os ydych yn gysylltiedig ag asesu anghenion person, darparu gofal a thriniaeth fel rhan o gynllun gofal person, neu adolygu ei gynllun gofal, bydd rhaid i chi ystyried darpariaethau'r Ddeddf Gallu Meddyliol.

Er enghraifft:

- efallai y bydd rhaid ichi asesu gallu'r person i wneud penderfyniadau penodol ynglyn â'i ofal neu ei driniaeth ([gweler rhan 6](#))
- pan fyddwch yn gwneud penderfyniad ar ran rhywun sydd ag anallu bydd rhaid ichi ystyried beth sydd er pennaf les iddo ([gweler rhan 7](#))
- os yw'r person wedi cynllunio ar gyfer y dyfodol ac wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth sy'n ddilys ac yn berthnasol i'r driniaeth sydd gennych mewn golwg bydd rhaid ichi gydymffurfio â'r penderfyniad hwnnw ([gweler rhan 10](#))
- os yw'r person wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn nodi ei ddymuniadau a'i deimladau bydd angen ichi ystyried y datganiad ([gweler rhan 10](#))
- os yw'r person wedi gwneud AB (un ar gyfer iechyd a lles yn arbennig) ac yn awr yn berson ag anallu, bydd angen i chi gynnwys yr atwrnai yn y gwaith o gynllunio a darparu gofal neu driniaeth ([gweler rhan 10](#)). Os yw'r AB yn rhoi pŵer i'r atwrnai ganiatáu neu wrthod triniaeth neu ofal ar ran y person, bydd angen i chi sicrhau bod y penderfyniad a wneir gan yr atwrnai yn cael ei drin yn yr un ffordd â phenderfyniad a wneir gan y person hwn ([gweler rhan 10](#)).
- mae'n bosib y bydd y person yn gofyn ichi am gymorth i wneud datganiad ysgrifenedig neu benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ([gweler rhan 10](#)).

## Y Ddeddf Gallu Meddyliol a phobl sydd wedi eu penodi i ddelio gyda materion Nawdd Cymdeithasol

Bydd rhai pobl sy'n derbyn budd-daliadau neu bensiynau yn methu â gweithredu drostynt eu hunain. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd person yn cael ei benodi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i hawlio, gwario a rheoli'r budd-dal neu'r pensiwn ar ran y person.

Os ydych wedi cael eich penodi i weithredu ar ran rhywun sy'n methu â gwneud penderfyniadau ariannol, neu os ydych yn gweithio gyda rhywun sydd â pherson wedi ei benodi i weithredu ar ei ran, dylid gweithredu'r penodiad yn unol â'r Ddeddf Gallu Meddyliol. Er enghraifft, dylai penderfyniadau sy'n ymwneud â sut y dylid gwario arian y person gael eu gwneud yn unol â'r egwyddor pennaf les ([gweler rhan 7](#)) a'r egwyddor ynglyn â gwneud pethau sy'n amharu cyn lleied ag sy'n bosib ar hawliau a rhyddid person ([gweler rhan 4](#)).

Os oes tystiolaeth nad yw'r sawl a benodwyd yn dilyn yr egwyddorion hyn gellir dirymu'r penodiad.

## Y Ddeddf Gallu Meddyliol a Deddf Meinweoedd Dynol 2004

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn delio, ymhlith pethau eraill, â materion sy'n ymwneud â'r caniatâd i ddefnyddio meinweoedd neu organau i ddibenion fel trawsblannu, ymchwil neu gael gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i berson arall.

Cyn ystyried storio neu ddefnyddio meinweoedd neu organau pobl sy'n methu â rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw un o'r dibenion hyn, rhaid i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ystyried Deddf Meinweoedd Dynol 2004. Gellir cael rhagor o ganllawiau gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol: [www.hta.gov.uk/guidance/codes\\_of\\_practice.cfm](http://www.hta.gov.uk/guidance/codes_of_practice.cfm)

## Y Ddeddf Gallu Meddyliol a phlant a phobl ifanc

### 1 Lle bo'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol i bobl ifanc 16 a 17 oed

- Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y Ddeddf Gallu Meddyliol a'r Ddeddf Plant o ran pobl ifanc 16 a 17 oed. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol i bobl ifanc a bydd y Côt Ymarfer ar gyfer y Ddeddf yn cynnwys canllawiau ynglyn â'r hyn y dylid ei wneud.

- Rhaid i unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaeth i bobl ifanc 16 neu 17 oed gael eu gwneud er eu pennaf les ac yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gallu Meddyliol. Fel yn achos pob penderfyniad o'r fath, rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, lle bo'n ymarferol ac yn briodol, ymgynghori â theulu a ffrindiau'r person, yn enwedig y rhai hynny sydd â chyfrifoldebau rhieni, fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau er pennaf les ([gweler rhan 7](#)).

## 2 Lle nad yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol i bobl ifanc 16 a 17 oed

Mae rhai rhannau o'r Ddeddf Gallu Meddyliol na fyddant yn berthnasol i bobl ifanc 16 a 17 oed, gan fod y Ddeddf Gallu Meddyliol yn nodi bod rhaid i berson fod yn 18 oed neu drosodd. Y rhannau hyn yw:

- gwneud Atwrneiaeth Barhaol ([gweler rhan 10](#))
- gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ([gweler rhan 10](#))
- gwneud ewyllys. Nid yw'r gyfraith yn gyffredinol yn caniatáu i bobl dan 18 wneud ewyllys ac mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cadarnhau nad oes gan y Llys Gwarchod hawl i wneud ewyllys ar ran rhywun sydd dan 18 oed.

## 3 Lle bo'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn berthnasol i blant dan 16 oed

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd gofal a lles plant dan 16 oed yn dal i ddod dan Ddeddf Plant 1989.

Mae dwy ran o'r Ddeddf Gallu Meddyliol fydd yn berthnasol i blant dan 16 oed:

- Pwerau'r Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol plentyn dan 16 oed. Gall y Llys wneud y penderfyniadau hyn lle bo'n credu ei bod yn debygol na fydd y plentyn yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun ynglyn â'i eiddo a'i faterion ariannol hyd yn oed pan fydd yn 16 oed ([gweler rhan 12](#)).
- Mae'r trosedd o drin yn wael neu esgeuluso'n fwrriadol hefyd yn berthnasol i blant dan 16 sydd ag anallu gan na nodir unrhyw isafswm oedran ar gyfer y dioddefwr ([gweler rhan 9](#)).

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi rhagor o esboniad am achosion cyfreithiol ar gyfer pobl ifanc a'r berthynas gyda chyfreithiau perthnasol eraill megis Deddf Plant 1989.

## 15. Beth os ydw i am wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol?

Os hoffech wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol cewch ffonio 0845 330 2900 neu e-bostio [makingdecisions@dca.gsi.gov.uk](mailto:makingdecisions@dca.gsi.gov.uk)

Mae ffynonellau eraill o wybodaeth ac arweiniad defnyddiol yn cynnwys

Teitl	Ar gael o
Llyfrynnau gwybodaeth eraill fel hwn	Gallwch weld y rhain yn electronig drwy ymweld ag: <a href="http://www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm">www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm</a> Neu gallwch anfon e-bost at <a href="mailto:reorder@inprintlitho.com">reorder@inprintlitho.com</a> er mwyn archebu copïau caled
Cylchlythyr rhad ac am ddim yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â gweithredu'r Ddeddf Gallu Meddyliol. Bydd y cylchlythyr hwn yn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf gennych ynglyn â digwyddiadau, cynnyrch cyfathrebu a deunydd hyfforddiant sy'n ymwneud â'r Ddeddf Gallu Meddyliol.	E-bost: <a href="mailto:makingdecisions@dca.gsi.gov.uk">makingdecisions@dca.gsi.gov.uk</a> er mwyn tanysgrifio
Deddf Gallu Meddyliol 2005	Gallwch weld y Ddeddf yn rhad ac am ddim drwy ymweld ag: <a href="http://www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm">www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm</a> Neu gallwch archebu copi caled gan TSO drwy ffonio 0870 600 5522 neu anfon e-bost at <a href="mailto:customerservices@tso.co.uk">customerservices@tso.co.uk</a>
Y Côd Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol	Pan gyhoeddir y Cod bydd ar gael yn ddi-dâl yn <a href="http://www.dca.gov.uk/legal-policy/mentalcapacity/Index.htm">www.dca.gov.uk/legal-policy/mentalcapacity/Index.htm</a> Gallwch hefyd archebu copi caled gan y Llyfrfa drwy ffonio 0870 600 5522 neu e-bostio <a href="mailto:customerservices@tso.co.uk">customerservices@tso.co.uk</a>

Teitl	Ar gael o
<p>Offeryn arfer gorau i helpu i brofi pa mor barod yw eich sefydliad ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gallu Meddyliol</p>	<p><a href="http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Bulletins/ChiefExecutiveBulletin">www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Bulletins/ChiefExecutiveBulletin</a> (ac wedyn ewch i Fwletin y Prif Weithredwr Rhifyn 329, 28 Gorffennaf – 3 Awst 2006)</p>
<p>Arweinwyr Cyswllt Gweithredu Rhanbarthol y Ddeddf Gallu Meddyliol yng Nghymru a Lloegr</p>	<p>I gael manylion cyswllt arweinydd cyswllt eich ardal: E-bostiwrch <a href="mailto:makingdecisions@dca.gsi.gov.uk">makingdecisions@dca.gsi.gov.uk</a> (ar gyfer Lloegr) <a href="mailto:a.sarah.austin@wales.gsi.gov.uk">a.sarah.austin@wales.gsi.gov.uk</a> (ar gyfer Cymru)</p>
<p>Deunyddiau Hyfforddi ar y Ddeddf Gallu Meddyliol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Bydd y rhain ar gael o ddiwedd Ebrill 2007. I gael rhagor o wybodaeth ewch i <a href="http://www.dh.gov.uk">www.dh.gov.uk</a></p>
<p>Gwybodaeth am wasanaeth yr Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol, Cynlluniau Peilot Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol a deunydd hyfforddiant ar gyfer Eiriolwyr Gallu Meddyliol Annibynnol</p>	<p><a href="http://www.dh.gov.uk/imca">www.dh.gov.uk/imca</a></p>

## 16. Rhai cysylltiadau defnyddiol

Mae'r adrannau canlynol yn cydweithio i roi'r Ddeddf Gallu Meddyliol ar waith yn 2007.

Adran	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Yr Adran Materion Cyfansoddiadol (AMC)</b>	Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys rhedeg y llysoedd a gwella'r system gyfiawnder, hawliau dynol, cyfraith hawliau gwybodaeth, polisi ar gynnal etholiadau a moderneiddio'r cyfansoddiad.	Department for Constitutional Affairs, 5th Floor Steel House, 11 Tothill St, Llundain SW1H 9LH <a href="http://www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm">www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm</a> T 020 7210 0038/39 E <a href="mailto:makingdecisions@dca.gsi.gov.uk">makingdecisions@dca.gsi.gov.uk</a>
<b>Yr Adran Iechyd</b>	Yr Adran Iechyd sy'n gyfrifol am bennu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'r Adran yn gosod safonau ac yn gyrru'r broses foderneiddio yn ei blaen ym mhob agwedd ar y GIG, gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd.	Department of Health, Wellington House, 133-155 Waterloo Road Llundain, SE1 3UG <a href="http://www.dh.gov.uk">www.dh.gov.uk</a> T 020 7210 4850
<b>Y Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus</b>	Y Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus yw cangen weinyddol y Llys Gwarchod ac mae'n rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Mae'n darparu gwasanaethau diogelwch ariannol i gleientiaid nad ydynt yn gallu rheoli eu materion ariannol oherwydd anallu meddyliol.	Public Guardianship Office, Archway Tower, 2 Junction Road, Llundain, N19 5SZ <a href="http://www.guardianship.gov.uk">www.guardianship.gov.uk</a> T 0845 330 2900 E <a href="mailto:custserv@guardianship.gsi.gov.uk">custserv@guardianship.gsi.gov.uk</a>
<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>	Mae'r Cynulliad yn datblygu polisi ac yn cymeradwyo deddfwriaeth sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru.	Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ <a href="http://www.wales.gov.uk">www.wales.gov.uk</a> T 029 2082 5111

Roedd y mudiadau canlynol wedi cyfrannu at ysgrifennu'r llyfryn hwn a chynghori arno

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Y Gynghair Gwneud Penderfyniadau</b>	Mae'n cynnwys: Action on Elder Abuse, Age Concern England, Alzheimers Concern Ealing, Cymdeithas Alzheimer, Sefydliad Beth Johnson, Carers UK, y Ganolfan Bolisi ar Heneiddio, Cloverleaf Advocacy, y Fforwm Defnyddwyr, Different Strokes, Cymdeithas Syndrom Down, y Sefydliad i Bobl sydd ag Anableddau Dysgu, Headway, Help the Aged, Clwb Gateway Horsham, y Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol, Ymddiriedolaeth Awtistiaeth Caint, Leonard Cheshire, Mencap, Sefydliad Iechyd Meddwl, Mind, Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, Grwp Defnyddwyr Gogledd Swydd Stafford, Ymddiriedolaeth Oaklea, Patient Concern, Powerhouse, Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr, Respond, Rethink, Cymdeithas Syndrom Rett, St Clements Patient Council, Scope, Sense, Skills for People, y Gymdeithas Strôc, Turning Point, United Response, WITNESS	<a href="http://www.makingdecisions.org.uk">www.makingdecisions.org.uk</a>
<b>Action for Advocacy</b>	Asiantaeth adnoddau a chefnogaeth i'r sector eiriolaeth, gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor	PO Box 31856, Lorrimore Square Llundain, SE17 3XR <a href="http://www.actionforadvocacy.org">www.actionforadvocacy.org</a>
<b>Age Concern</b>	Mudiad mwyaf y DU sy'n gweithio i hyrwyddo lles pob unigolyn hŷn. Mae'n darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth hanfodol i filoedd o bobl hŷn – o bob oed a chefnidir.	Astral House, 1268 London Road Llundain, SW16 4ER <a href="http://www.ageconcern.org.uk">www.ageconcern.org.uk</a> <a href="http://www.accymru.org.uk">www.accymru.org.uk</a> Llinell wybodaeth 020 8765 7200

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Cymdeithas Alzheimer</b>	Prif elusen gofal ac ymchwil y DU ar gyfer pobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr	Gordon House , 10 Greencoat Place Llundain, SW1P 1PH <a href="http://www.alzheimers.org.uk">www.alzheimers.org.uk</a> Llinell Gymorth: 0845 300 0336
<b>Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Duon a Phroffesiynau Perthynol</b>	Mae'r Gymdeithas yn ceisio gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol i ddefnyddwyr a staff du	Association of Black Social Workers and Allied Professions, 65 Woodrow, Woolwich , Llundain, SW18 5DH T 020 8 854 7402
<b>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau i Blant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	ADDSS Administrator, ADDSS Business Unit, Local Government House, Smith Square, Llundain, SW1P 3HZ <a href="http://www.adss.org.uk">www.adss.org.uk</a> T 020 7072 7433 F 020 7863 9133
<b>Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)</b>	BASW yw'r gymdeithas fwyaf sy'n cynrychioli gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol yn y DU.	16 Kent Street, Birmingham, B5 6RD <a href="http://www.basw.co.uk">www.basw.co.uk</a> T (0121) 622 3911 F (0121) 622 4860
<b>Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)</b>	Mae'r BMA yn cynrychioli meddygon o bob cangen o feddygaeth ym mhob cwr o'r DU	BMA, BMA House, Tavistock Square, Llundain, WC1H 9JP <a href="http://www.bma.org.uk">www.bma.org.uk</a> T 020 7387 4499 F 020 7383 6400



Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Carers UK</b>	Yn gofalu am deuluoedd, partneriaid neu ffrindiau sydd angen cymorth oherwydd eu bod yn wael, yn fregus neu ag anabledd	20/25 Glasshouse Yard, Llundain, EC1A 4JT <a href="http://www.carersuk.org">www.carersuk.org</a> T 020 7566 7637 F 0207490 8824
<b>Cymdeithas Syndrom Down</b>	Mae'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl sydd â syndrom Down, eu teuluoedd a'u gofawyr, yn ogystal â bod yn adnodd ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes	Langdon Down Centre, 2a Langdon Park Teddington, Middlesex, TW11 9PS <a href="http://www.downs-syndrome.org.uk">www.downs-syndrome.org.uk</a> T 0845 230 0372 F 0845 230 0373
<b>English Community Care Association</b>	Y corff cynrychioladol mwyaf ar gyfer gofal yn y gymuned yn Lloegr	4th Floor, 145 Cannon Street, Llundain <a href="http://www.ecca.org.uk">www.ecca.org.uk</a> T 020 7220 9595 F 020 7220 9596
<b>Sefydliad i Bobl sydd ag Anableddau Dysgu</b>	Mae'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'r rheini sy'n eu cefnogi i wella ansawdd eu bywyd a hyrwyddo hawliau, ansawdd bywyd a chyfluoedd pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd	Foundation for People with Learning Disabilities, Sea Containers House, Llundain, SE1 9QB <a href="http://www.learningdisabilities.org.uk">www.learningdisabilities.org.uk</a> T 020 7803 1100
<b>Cyngor Meddygol Cyffredinol</b>	Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn cofrestru meddygon i ymarfer meddygaeth yn y DU	GMC, Regents Place, 350 Euston Road, Llundain, NW1 3JN T 0845 357 3456 F 0845 357 8001

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Headway – y gymdeithas anafiadau i'r ymennydd</b>	Hybu dealltwriaeth o bob agwedd ar anafiadau i'r ymennydd; a darparu gwybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau i bobl sydd ag anaf i'r ymennydd, eu teulu a'u gofawlyr	4 King Edward Court Service , King Edward Street, Nottingham, NG1 1EW <a href="http://www.headway.org.uk">www.headway.org.uk</a> T 0115 9240800 Llinell gymorth 0808 800 2244
<b>Cymdeithas Llywodraeth Leol</b>	Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn hybu buddiannau awdurdodau lleol Cymru a Lloegr – yn agos at 500 o awdurdodau	Local Government House, Smith Square Llundain, SW1P 3HZ <a href="http://www.lga.gov.uk">www.lga.gov.uk</a> T 020 7664 3131 F 020 7664 3030
<b>Y Sefydliad Iechyd Meddwl</b>	Un o brif elusennau'r DU sy'n darparu gwybodaeth, yn gwneud gwaith ymchwil, yn cynnal ymgyrchoedd ac yn gweithio i wella gwasanaethau ar gyfer unrhyw un yr effeithir arnynt gan broblemau iechyd meddwl, beth bynnag y bo'u hoed a ble bynnag y bônt yn byw	Mental Health Foundation, Sea Containers House (yr un cyfeiriad â'r Sefydliad i Bobl sydd ag Anableddau Dysgu) <a href="http://www.mentalhealth.org.uk">www.mentalhealth.org.uk</a> T 020 7803 1100
<b>MIND</b>	Un o'r prif elusennau iechyd meddwl, sy'n gweithio er mwyn cael bywyd gwell i bawb sydd â phrofiad o drallod meddwl. Mae'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth.	15-19 Broadway, Stratford, Llundain E15 4BQ <a href="http://www.mind.org.uk">www.mind.org.uk</a> T 0208 519 2122

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth</b>	Cymdeithas sy'n hyrwyddo hawliau a buddiannau pawb sydd ag awtistiaeth ac yn sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn derbyn gwasanaethau o safon uchel sy'n briodol i'w hanghenion	National Autistic Society, 393 City Road, Llundain, EC1V 1NG <a href="http://www.autism.org.uk">www.autism.org.uk</a> T 0845 070 4004 (llinell gymorth awtistiaeth)
<b>Y Gymdeithas Gofal Genedlaethol</b>	Cymdeithas sy'n cynrychioli buddiannau ac yn darparu gwasanaethau i gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol bach a chanolig eu maint yng Nghymru a Lloegr	National Care Association, 45-49 Leather Lane, Llundain, EC1N 7JT <a href="http://www.nca.gb.com">www.nca.gb.com</a> T 020 7831 7090
<b>Fforwm Gofal Cenedlaethol</b>	Sefydlwyd y Fforwm Gofal Cenedlaethol i gynrychioli buddiannau darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol dielw yn y Deyrnas Unedig	National Care Form, 3 The Quadrant, Coventry, CV1 2DY. <a href="http://www.nationalcareforum.org.uk">www.nationalcareforum.org.uk</a> T 024 7624 3619
<b>Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogi Gofalwyr Teulu</b>	Rhwydwaith sy'n darparu cefnogaeth a gwybodaeth i ofalwyr teulu	Merchants House, Wapping Road Bryste, BS1 4RW <a href="http://www.familycarers.org.uk">www.familycarers.org.uk</a> T 0117 930 2608
<b>Patient Concern</b>	Sefydliad sydd wedi ymrwymo i hybu dewis a rhoi grym i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd	PO Box 23732, Llundain SW5 9FY <a href="http://www.patientconcern.org.uk">www.patientconcern.org.uk</a> E <a href="mailto:patientconcern@hotmail.com">patientconcern@hotmail.com</a>

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr</b>	Mae'r Gymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr yn bodoli ar gyfer pobl hŷn sydd angen gofal preswyl, neu sy'n byw mewn gofal preswyl, a'r teuluoedd a'r ffrindiau sydd wedi eu gadael ar ôl	The Relatives and Residents Association, 24 The Ivories, 6-18 Northampton Street Llundain, N1 2HY <a href="http://www.relres.org">www.relres.org</a> T 020 7359 8148
<b>RESCARE</b>	Y gymdeithas genedlaethol ar gyfer plant ac oedolion sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd	Steven Jackson House, 31 Buxton Road Heaviley, Stockport SK2 6LS <a href="http://www.rescare.org.uk">www.rescare.org.uk</a> T 0161 474 7323
<b>RESPOND</b>	Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer y rheini sydd ag anableddau dysgu ac sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu sydd wedi cam-drin eraill yn rhywiol a'r rheini y mae trawma arall wedi effeithio arnynt. Mae eu gwasanaethau'n ymestyn i gefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer teuluoedd, gofawyr a gweithwyr proffesiynol.	3rd Floor, 24-32 Stephenson Way Llundain, NW1 2HD T 020 7383 0700 F 020 7387 1222 <a href="http://www.respond.org.uk">www.respond.org.uk</a> Llinell gymorth: 0808 808 0700
<b>Coleg Brenhinol y Nyrsys</b>	Mae'r Coleg yn cynrychioli nyrsys a nyrsio	Royal College of Nursing, 20 Cavendish Square, Llundain, W1G 0RN <a href="http://www.rcn.org.uk">www.rcn.org.uk</a> T 020 7409 3333

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Coleg Brenhinol y Seiciatryddion</b>	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yw'r corff proffesiynol ac addysgol ar gyfer seiciatryddion yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon	Royal College of Psychiatrists, 17 Belgrave Square, Llundain SW1X 8PG <a href="http://www.rcpsych.ac.uk">www.rcpsych.ac.uk</a> T 020 7235 2351
<b>Cymdeithas Gofal Cymdeithasol</b>	Cymdeithas weithgar, gynhwysol a llawn gwybodaeth sydd i'w gweld yn hybu arferion cadarnhaol ym mhob gwasanaeth gofal cymdeithasol ledled y DU K	Social Care Association, Thornton House, Hook Road, Surbiton, Surrey KT6 5AN <a href="http://www.socialcareassociation.co.uk">www.socialcareassociation.co.uk</a> T 020 8 397 1411
<b>Scope</b>	Sefydliad anabledd yng Nghymru a Lloegr, sy'n canolbwyntio ar bobl sydd â pharlys yr ymennydd	6 Market Road, London, N7 9PW <a href="http://www.scope.org.uk">www.scope.org.uk</a> T 020 7619 7100
<b>Sense</b>	Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol i bobl ddall a byddar, eu teuluoedd, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Mae'r elusen yn cael ei hariannu i ddatblygu deunydd hyfforddiant sy'n rhoi sylw i faterion eiriolaeth ar gyfer pobl ddall a byddar	11-13 Clifton Terrace, Finsbury Park, Llundain N4 3SR <a href="http://www.sense.org.uk">www.sense.org.uk</a> T 0845 127 0060 F 0845 127 0061 Testun 0845 127 0062

Sefydliad	Beth ydyw / Beth mae'n ei wneud	Cysylltu
<b>Turning Point</b>	Turning Point yw prif sefydliad gofal cymdeithasol y DU. Mae'n darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a phroblemau iechyd meddwl a phobl sydd ag anabledd dysgu	New Loom House, 101 Backchurch Lane Llundain E1 1LU <a href="http://www.turning-point.co.uk">www.turning-point.co.uk</a> T 020 7702 2300
<b>United Response</b>	Sefydliad cenedlaethol sy'n creu cyfleoedd a gwasanaethau gyda phobl sydd ag anawsterau dysgu a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl	113 – 123 Upper Richmond Road, Putney Llundain SW15 2TL <a href="http://www.unitedresponse.org.uk">www.unitedresponse.org.uk</a> T 020 8246 5200 F 020 8780 9538 Minicom: 020 8785 1706

## Nodiadau

Mae'r llyfrynau eraill sydd yn y gyfres hon yn cynnwys:

- 1 Gwneud penderfyniadau ynglyn â'ch iechyd, eich lles neu'ch arian. Pwy fydd yn penderfynu pan fyddwch chi'n methu
- 2 Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr di-dâl eraill
- 4 Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i weithwyr cyngori
- 5 Gwneud penderfyniadau. Canllaw Hawdd i'w Ddarllen

Mae'r llyfrynau hyn ar gael mewn fformatau eraill, ar gais. I archebu unrhyw rai o'r llyfrynau hyn:

**T** 023 80 878038 neu 023 80 878036  
**E** [reorder@inprintlitho.com](mailto:reorder@inprintlitho.com)  
**F** 023 80 528 324

Mae'r llyfrynau i'w cael oddi ar y we hefyd:

[www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm](http://www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm)

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn gan y Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol. Cafodd ei ysgrifennu gan y Gymdeithas Gofal Genedlaethol.

2il Argraffwyd Chwefror 2007  
© Hawlfraint y Goron 2006